# Asesiad o Effaith Integredig Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint

## Datganiad ar ôl Mabwysiadu'r Asesiad o Effaith Integredig

IONAWR 2023

# Cysylltiadau

**CATHERINE WRIGHT**
**Uwch Ymgynghorydd Amgylcheddol**

e catherine.wright@arcadis.com

**Arcadis Consulting (UK) Limited.**

Arcadis Cymru House
Parc Busnes St Mellons
Ffordd Fortran
Caerdydd
CF3 0EY

Mae Arcadis Consulting (UK) Limited yn gwmni cyfyngedig preifat sydd wedi'i gofrestru yn Lloegr o dan y rhif cofrestredig 02212959. Swyddfa gofrestredig: 80 Fenchurch Street, Llundain EC3M 4BY, y DU. Rhan o Grŵp Cwmnïau Arcadis ynghyd ag endidau eraill yn y DU. Wedi'i reoleiddio gan RICS.

# Asesiad o Effaith Integredig Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint

Datganiad ar ôl Mabwysiadu'r Asesiad o Effaith Integredig

| | |
|---|---|
| Awdur | Catherine Wright |
| Gwiriwr | Sarah Tooby |
| Adolygwr | Sarah Tooby |
| Cymeradwywr | Frank Hayes |
| Dyddiad | IONAWR 2023 |

# Rheoli Fersiwn

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Gwiriwr | Adolygwr | Cymeradwywr | Newidiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **F1** | **Ionawr 2023** | **CW** | **ST** | **ST** | **FH** | **Drafft cyntaf ar gyfer adolygiad cleientiaid** |
| **F2** | **Ionawr 2023** | **CW** | **ST** | **ST** | **FH** | **Terfynol** |
| | | | | | | |
| | | | | | | |

Mae'r adroddiad hwn dyddiedig 11 Ionawr 2023 wedi'i baratoi ar gyfer Cyngor Sir y Fflint (y "Cleient") yn unol â thelerau ac amodau'r penodiad dyddiedig 20 Rhagfyr 2022 (y "Penodiad") rhwng y Cleient ac ("Arcadis") at ddibenion a nodwyd yn y Penodiad. Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd unrhyw unigolyn arall (unigolion eraill) yn cael defnyddio neu ddibynnu ar yr adroddiad hwn neu ei gynnwys, ac nid yw Arcadis yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddefnydd o'r fath neu ddibyniaeth arno gan unrhyw drydydd parti arall.

# Cynnwys


**1 Cyflwyniad** .......... **5**

**2 Sut mae ystyriaethau amgylcheddol wedi'u hintegreiddio i'r CDLl** .......... **10**

**3 Sut mae barn y Cyrff Ymgynghori wedi'i hystyried** .......... **44**

**4 Y rhesymau dros ddewis y CDLl a fabwysiadwyd yng ngoleuni'r dewisiadau amgen rhesymol a ystyriwyd** .......... **46**

**5 Mesurau i fonitro effeithiau amgylcheddol sylweddol** .......... **52**

**6 Casgliad** .......... **56**


# Tablau


Tabl 1-1: Camau proses yr Asesiad o Effaith Integredig hyd yma .......... 7

Tabl 2-1: Fframwaith yr Asesiad o Effaith Integredig .......... 16

Tabl 2-2: Polisïau a nodwyd yn y CDLl (mae'r rhai mewn print trwm yn bolisïau newydd a chafodd y rhai mewn coch eu diwygio trwy Newidiadau y Materion sy'n Codi a'u hasesu yn yr Atodiad i'r Asesiad o Effaith Integredig) .......... 24

Tabl 2-3: Sgorau a gofnodwyd ar gyfer pob Polisi Strategol yn erbyn pob Amcan yr Asesiad o Effaith Integredig 27

Tabl 2-4: Sgorau a gofnodwyd ar gyfer pob Polisi Rheoli Datblygu yn erbyn pob Amcan yr Asesiad o Effaith Integredig .......... 29

Tabl 2-5: Dyraniadau safle a gynigiwyd yn y CDLl i'w Archwilio gan y Cyhoedd a dewisiadau amgen rhesymol 30

Tabl 2-6: Sgorau a gofnodwyd ar gyfer pob safle a ddyrannwyd yn erbyn pob Amcan yr Asesiad o Effaith Integredig .......... 32

Tabl 2-7: Crynodeb o'r mesurau a argymhellwyd ar gyfer pob Amcan yr Asesiad o Effaith Integredig yn Adroddiad Cyflwyno'r Asesiad o Effaith Integredig a sut mae'r argymhellion hyn wedi'u hystyried .......... 33

Tabl 2-8: Effeithiau cyfunol a synergyddol y CDLl ar y cyd .......... 37

Tabl 2-9: Rhestr o Newidiadau y Materion sy'n Codi a ddiwygiwyd trwy Adroddiad yr Arolygydd .......... 42

Tabl 3-1: Dogfennau'r Cynllun Datblygu Lleol a lle i ddod o hyd iddynt .......... 44

Tabl 3-2: Adroddiadau'r Asesiad o Effaith Integredig a lle i ddod o hyd iddynt .......... 44

Tabl 4-1: Safleoedd amgen rhesymol a ystyriwyd ar y cam CDLl i'w Archwilio gan y Cyhoedd .......... 49

Tabl 5-1: Fframwaith Monitro Arfaethedig .......... 53

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Beth yw Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint?

1.1.1 Ar hyn o bryd, mae Cyngor Sir y Fflint ('y Cyngor') yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd Sir y Fflint ar gyfer 2015 – 2030. Cynhaliwyd Gwrandawiadau'r Archwiliad rhwng 13 Ebrill a 20 Mai 2021, a chynhaliwyd sesiynau ychwanegol ar 21 Medi a 23 Tachwedd 2021. Yn dilyn cynnig Newidiadau y Materion sy'n Codi ac Adroddiad yr Arolygydd, mae'r CDLl bellach yn barod i gael ei fabwysiadu.

1.1.2 Mae'r CDLl yn disodli Cynllun Datblygu Unedol presennol Sir y Fflint[1] a dyma'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar gynllunio defnydd tir ar draws y Sir hyd at 2030. Mae'n ffurfio dyfodol ffisegol ac amgylcheddol Sir y Fflint yn ogystal â dylanwadu arni'n economaidd ac yn gymdeithasol. Mae'r CDLl yn ymateb i anghenion amrywiol poblogaeth ac economi sy'n tyfu drwy ddarparu swyddi, cartrefi, isadeiledd a chyfleusterau cymunedol newydd, mewn ffordd sy'n sicrhau bod lles pobl yn cael ei wella, a bod effeithiau datblygu yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.

1.1.3 Mae deddfwriaeth a chanllawiau cynllunio cenedlaethol yn gosod cyd-destun y CDLl, sy'n gofyn bod awdurdodau lleol yng Nghymru'n paratoi ac yn cynnal cynllun datblygu sy'n ymdrin â'r heriau uchod, yn unol â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy sydd wedi'i chynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)[2]. Mae'r CDLl yn cynnwys dull cadarnhaol a chyfrifol o ddatblygu yn Sir y Fflint a'i nod yw creu mannau cynaliadwy o ansawdd uwch yng nghefn gwlad ac mewn trefi. Mae man cynaliadwy'n un sydd â digon o isadeiledd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i ddiwallu anghenion ei drigolion, ond sydd hefyd yn wydn ac yn gallu addasu ar gyfer heriau'r dyfodol.

## 1.2 Beth yw'r Asesiad o Effaith Integredig?

1.2.1 Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru rŵan ac yn yr hirdymor. Un o'r dulliau allweddol o gyflawni hyn yw drwy gymryd dull integredig i ddatblygu strategaeth a pholisi. Mae'r Asesiad o Effaith Integredig (AEI) yn broses i ragfynegi a gwerthuso effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol posibl cynllun, a'i nod yw sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd y broses o lunio cynllun. Gellir ei ddefnyddio hefyd i nodi effeithiau diwylliannol, gan ei wneud yn gyson â phedair cydran o ddatblygu cynaliadwy yng nghyfraith Cymru.

1.2.2 Mae'r AEI hwn yn ymgorffori gofynion Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) cyfunol ac Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG), yn ogystal ag Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, Asesiad o Effaith ar Iechyd (AEaI) ac Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEaG). Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn gyfredol â chanfyddiadau diweddaraf Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) y CDLl sydd wedi'i ddiweddaru i ystyried materion gyda ffosffad a'i effaith ar afonydd sy'n cael eu gwarchod yn y Sir.

1.2.3 Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ofyniad ar gyfer sawl darn o ddeddfwriaeth yn cynnwys Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC ar 'asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd' (Cyfarwyddeb yr Asesiad Amgylcheddol Strategol)[3] a gafodd ei drawsosod yn uniongyrchol i gyfraith Cymru trwy Reoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol[4]. Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn broses systematig ar gyfer gwerthuso canlyniadau amgylcheddol cynlluniau

[1] Ar gael yn: http://www.cartogold.co.uk/flintshire/ [Cyrchwyd 03/01/23]

[2] Ar gael yn: https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/ [Cyrchwyd: 03/01/23]
[3] Ar gael yn: https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/ALL/?uri=celex%3A32001L0042 [Cyrchwyd: 03/01/23]
[4] Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/wsi/2004/1656/contents/made [Cyrchwyd: 03/01/23]

a rhaglenni i sicrhau bod materion amgylcheddol yn cael eu hintegreiddio a'u hasesu ar y cyfle cynharaf yn y broses o wneud penderfyniadau.

1.2.4 Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn asesiad o effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol Cynllun a gynhaliwyd o ddechrau'r broses o lunio Cynllun i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn broses systemig ac ailadroddol sy'n nodi ac yn adrodd ar i ba raddau y bydd gweithredu'r cynllun yn cyflawni'r amcanion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd lle y gellir diffinio datblygu cynaliadwy ac sy'n nodi cyfleoedd ar gyfer gwella perfformiad y cynllun mewn perthynas â'r rhain.

## 1.3 Asesiad o Effaith Integredig a phroses y Cynllun Lleol hyd yn hyn

1.3.1 Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Cymru - Argraffiad 3 (2020), yn ogystal â chyhoeddiad Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, A Practical Guide to the SEA Directive (2005), yn rhoi canllawiau ar gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd/ Asesiad Amgylcheddol Strategol. Dilynwyd y rhain at ddibenion yr Asesiad o Effaith Integredig. Mae'r pum prif gam o gynnal Asesiad o Effaith Integredig wedi'u diffinio fel:

- Cam A - gosod y cyd-destun a'r amcanion, pennu'r llinell sylfaen a phenderfynu ar y cwmpas;
- Cam B - datblygu a mireinio dewisiadau ac asesu effeithiau;
- Cam C - paratoi Adroddiad yr Asesiad o Effaith Integredig (Arfarniad o Gynaliadwyedd);
- Cam D - ymgynghori ar y dewis a ffefrir ar gyfer y cynllun datblygu ac Adroddiad yr Asesiad o Effaith Integredig; a
- Cam E - monitro'r effeithiau arwyddocaol o weithredu'r cynllun datblygu.

1.3.2 Mae Tabl 1-1 yn cyflwyno'r camau allweddol ym mhroses yr Asesiad o Effaith Integredig. Mae'r tabl hefyd yn dangos sut mae prosesau a chamau pob Arfarniad o Gynaliadwyedd (gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol), Asesiad o Effaith ar Iechyd, Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn gysylltiedig â'i gilydd, ac i baratoi a datblygu'r CDLl.

## 1.4 Diben y Datganiad ar ôl Mabwysiadu

1.4.1 Mae'r Datganiad ar ôl Mabwysiadu hwn yn cynrychioli casgliad proses yr Asesiad o Effaith Integredig ac yn cyflawni gofynion mabwysiadu cynllun a rhaglen y Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol. Yn unol â Rheoliad 16 (4) y Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol, mae'r datganiad hwn yn amlinellu'r canlynol:

- Sut mae ystyriaethau amgylcheddol wedi'u hintegreiddio i'r cynllun neu'r rhaglen (Pennod 2 y ddogfen hon);
- Sut mae'r adroddiad amgylcheddol wedi'i ystyried (Pennod 2 y ddogfen hon);
- Sut mae'r safbwyntiau a fynegwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar Adroddiadau'r Asesiad o Effaith Integredig wedi'u hystyried (Pennod 3 y ddogfen hon);
- Sut mae canlyniadau unrhyw ymgynghoriadau wedi'u hystyried (Pennod 3 y ddogfen hon);
- Y rhesymau dros ddewis y cynllun neu'r rhaglen i'w fabwysiadu, ar ôl ymdrin â'r dewisiadau amgen rhesymol eraill (Pennod 4 y ddogfen hon), a'r
- Mesurau y gellir eu cymryd i fonitro effeithiau amgylcheddol sylweddol gweithredu'r cynllun neu'r rhaglen (Pennod 5 y ddogfen hon).

*Tabl 1-1: Camau'r broses Asesiad o Effaith Integredig hyd yma*

| Cam y CDLl | Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol | | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | Asesiad o'r Effaith ar Iechyd | Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb | Ble mae wedi'i drafod yn Adroddiad yr Asesiad o Effaith Integredig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Casglu Tystiolaeth ac Amcanion | **A. Gosod y cyd-destun a'r amcanion, pennu'r llinell sylfaen a phenderfynu ar y cwmpas** | Canfod cynlluniau/ rhaglenni cysylltiedig | Amherthnasol | Canfod cynlluniau/ rhaglenni sy'n ymwneud ag iechyd (fel rhan o'r AEI) sy'n gysylltiedig ag Asesiadau ar y Cyd o Anghenion Strategol lleol | Adolygu polisïau a strategaethau perthnasol | Wedi'i gwblhau yn yr Adroddiad Cwmpasu 2015[5] ac wedi ailymweld ag ef yn Atodiad B yr Adroddiad AEI i'w Archwilio gan y Cyhoedd[6]. |
| | | Pennu amcanion gwarchod yr amgylchedd | Amherthnasol | Echdynnu themâu sy'n gysylltiedig ag iechyd | Echdynnu themâu sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb | Wedi'i gwblhau yn yr Adroddiad Cwmpasu 2015 ac wedi ailymweld ag ef yn Atodiad A yr Adroddiad AEI i'w Archwilio gan y Cyhoedd. |
| | | Data llinell sylfaen a thueddiadau tebygol yn y dyfodol | Nodi'r holl safleoedd Ewropeaidd o fewn a hyd at 20 cilomedr i ardal Sir y Fflint | Casglu data llinell sylfaen sy'n ymwneud ag iechyd (fel rhan o'r AEI) | Data llinell sylfaen a thueddiadau tebygol yn y dyfodol | |
| | | Nodi materion a chyfleoedd sy'n ymwneud â chynaliadwyedd | Cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru am fanylion ar safleoedd Ewropeaidd ac ymgynghoriad | Nodi materion sy'n ymwneud ag iechyd a phenderfynyddion perthnasol (fel rhan o'r AEI) | Nodi materion sy'n ymwneud yn benodol â chydraddoldeb | |
| | | Datblygu amcanion, dangosyddion a thargedau (Fframwaith Asesu) | Sicrhau bod Fframwaith yr AEI yn cynnwys safleoedd Ewropeaidd yn briodol | Sicrhau bod amcanion, dangosyddion a thargedau sy'n ymwneud yn benodol ag iechyd yn cael eu cynnwys yn Fframwaith yr AEI | Sicrhau bod amcanion, dangosyddion a thargedau sy'n ymwneud yn benodol â chydraddoldeb yn cael eu cynnwys yn Fframwaith yr AEI | Wedi'i gwblhau yn yr Adroddiad Cwmpasu 2015 ac Ail-gwmpasu 2017. |
| | | Paratoi Adroddiad Cwmpasu'r AEI, yn ymgorffori'r ARhC a'r AEaI | Gwybodaeth yr ARhC wedi'i chynnwys yn Adroddiad Cwmpasu'r AEI | Gwybodaeth yr AEaI wedi'i chynnwys yn Adroddiad Cwmpasu'r AEI. | Gwybodaeth yr AEaG wedi'i chynnwys yn Adroddiad Cwmpasu'r AEI. | |
| | | **Ymgynghori ar Adroddiad Cwmpasu'r AEI, gan gynnwys AEaI, AEaG ac ARhC (5 wythnos)** | | | | |
| | **Adolygu ymatebion i'r ymgynghoriad cwmpasu a pharatoi'r Adroddiad Cwmpasu Terfynol i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y cam nesaf** | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dewisiadau Strategol a'r Strategaeth a Ffefrir | **B1/B2. Datblygu, mireinio a gwerthuso dewisiadau strategol, dewisiadau polisi a dewisiadau polisi a ffefrir.** | Asesu amcanion yn erbyn y Fframwaith Asesu | Am hert hna sol | Effeithiau'r AEaI wedi'u gwerthuso yn erbyn Fframwaith yr AEI – gan gynnwys mesurau lliniaru | Effeithiau'r AEaG wedi'u gwerthuso yn erbyn Fframwaith yr AEI | Wedi'i gwblhau yn Adroddiad Dewisiadau Strategol mis Hydref 2016[7]. |
| | | Datblygu, mireinio a gwerthuso dewisiadau strategol | Ystyried goblygiadau'r dewisiadau o ran yr ARhC. | Amherthnasol | Am hert hna sol | |

5 Ar gael yn: https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/Key-Process-Documents-Policy/LDP-KPD-IIA-SA-scoping-Report-Mar-2015.pdf [Cyrchwyd: 03/01/23]
6 Ar gael yn: https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/Key-Process-Documents-Policy/LDP-KPD-IIA4.1-Deposit-IIA-Appendix-A-D.pdf [Cyrchwyd: 03/01/23]
7 Ar gael yn: https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/Key-Process-Documents-Policy/LDP-KPD-IIA2-SA-Strategic-Options-Oct-2016.pdf [Cyrchwyd: 03/01/23]

| Cam y CDLl | Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol | | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | Asesiad o'r Effaith ar Iechyd | Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb | Ble mae wedi'i drafod yn yr Adroddiad Asesiad o Effaith Integredig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Gwerthuso/dewis y dewisiadau polisi a ffefrir | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | |
| | **Paratoi Adroddiad Cychwynnol yr AEI ar Ddewisiadau Strategol** | | | | | |
| | **Ymgynghori ar Adroddiad Cychwynnol yr AEI (anstatudol)** | | | | | |
| | **B3/B4. Asesu effeithiau Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Lleol** | Darogan ac asesu effeithiau'r dewisiadau a ffefrir sy'n cael eu dwyn ymlaen | Amherthnasol | Effeithiau'r AEaI wedi'u gwerthuso yn erbyn Fframwaith yr AEI – gan gynnwys mesurau lliniaru | Effeithiau'r AEaG wedi'u gwerthuso yn erbyn Fframwaith yr AEI | Wedi'i gwblhau yn Adroddiad Interim y Strategaeth a Ffefrir mis Hydref 2017[8]. |
| | | Mesurau lliniaru arfaethedig | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | |
| | | Rhaglen fonitro arfaethedig | Monitro fel rhan o'r AEI | | | |
| | **Paratoi Adroddiad AEI Interim Ychwanegol ar y Dewisiadau a Ffefrir** | | | | | |
| | **B3/B4. Asesu effeithiau'r Cynllun Datblygu Lleol i'w Archwilio gan y Cyhoedd gan gynnwys polisïau a dyraniadau manwl** | Darogan ac asesu effeithiau'r dewisiadau a ffefrir sy'n cael eu dwyn ymlaen | Amherthnasol | Effeithiau'r AEaI wedi'u gwerthuso yn erbyn Fframwaith yr AEI – gan gynnwys mesurau lliniaru | Effeithiau'r AEaG wedi'u gwerthuso yn erbyn Fframwaith yr AEI | |
| | | Mesurau lliniaru arfaethedig | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | |
| | | Rhaglen fonitro arfaethedig | Monitro fel rhan o'r AEI | | | |
| | **C. Paratoi Adroddiad yr AEI** | | Adroddiad Sgrinio'r ARhC wedi'i gynhyrchu ar wahân. | AEaI wedi'i gofnodi yn Amcanion AEI priodol yn Adroddiad yr AEI | AEaG wedi'i gofnodi yn Amcanion AEI priodol yn Adroddiad yr AEI | Wedi'i gwblhau yn yr Adroddiad i'w Archwilio gan y Cyhoedd mis Medi 2019[9]. |
| | **D. Ymgynghori ar Adroddiad yr AEI** | | *Ymgynghorwyd ar y sgrinio gyda Chyfoeth Naturiol* | *Wedi'i gynnwys yn Ymgynghoriad yr AEI.* | | Wedi'i gwblhau rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2019. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Paratoi a Chyflwyno'r CDLl i'w Archwilio gan y Cyhoedd | | | *Cymru.* | | | |
| | **D. Paratoi Adroddiad AEI atodol neu ddiwygiedig os oes angen** | Asesu newidiadau arwyddocaol | Paratoi Adroddiad yr ARhC wedi'i ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad. | AEaI wedi'i gofnodi yn Amcanion AEI priodol yn Adroddiad yr AEI | AEaG wedi'i gofnodi yn Amcanion AEI priodol yn Adroddiad yr AEI | Amherthnasol |
| | | Paratoi Adroddiad AEI atodol neu ddiwygiedig | | | | |

8 Ar gael yn: https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/Key-Process-Documents-Policy/LDP-KPD-IIA3-IIA-Preferred-Strategy-Oct-2017.pdf [Cyrchwyd: 03/01/23]
9 Ar gael yn: https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/Key-Process-Documents-Policy/LDP-KPD-IIA4-Deposit-IIA-Sept-2019.pdf [Cyrchwyd: 03/01/23]

| Cam y CDLl | Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | Asesiad o'r Effaith ar Iechyd | Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb | Ble mae wedi'i drafod yn yr Adroddiad Asesiad o Effaith Integredig |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflwyno, Archwilio a Mabwysiadu | **D. Datganiad Mabwysiadu** | | | | Newidiadau y Materion sy'n Codi o'r Archwiliad yn Atodiad Newidiadau y Materion sy'n Codi mis Rhagfyr 2021[10]. *Mae'r Adroddiad hwn yn cynrychioli'r Datganiad ar ôl Mabwysiadu.* |

[10] Ar gael yn: https://www.flintshire.gov.uk/cy/PDFFiles/Planning/Examination-Library-Documents/Addendum-Integrated-Impact-Assessment.pdf [Cyrchwyd: 03/01/23]

# 2 Sut mae ystyriaethau amgylcheddol wedi'u hintegreiddio i'r CDLl

## 2.1 Trosolwg

2.1.1 Diben yr AEI yw integreiddio ystyriaethau cynaliadwyedd i'r CDLl a'i helpu i gyflawni ei amcanion allweddol. Cyflawnir hyn yn defnyddio perthynas gydweithredol ac ailadroddol rhwng y rhai sy'n cynnal yr AEI a'r rhai sy'n gwneud y cynllun, yn seiliedig ar ddull fesul cam ar gamau allweddol drwy gydol ei ddatblygiad.

2.1.2 Mae camau proses yr AEI (AoG/AAS) wedi'u hamlinellu yn adran 1.3.1 a Thabl 1-1. Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu sut mae'r AEI wedi dylanwadu ar ddatblygiad y CDLl trwy bob un o'r camau hyn.

## 2.2 Cwmpasu

2.2.1 Mae cwmpasu yn cynrychioli'r cam cychwynnol ym mhroses yr AEI ar gyfer Cynllun sy'n cael ei ddatblygu ac mae'n amlinellu'r cwmpas ar gyfer gweddill y broses. Allbwn y cam hwn oedd Adroddiad Cwmpasu a oedd yn ffurfio'r sail ar gyfer ymgynghoriad gyda chyrff statudol ar gwmpas arfaethedig yr AEI.

### Cwmpas Gofodol ac Amserol

2.2.2 Mae'r AEI yn cymryd i ystyriaeth effeithiau traws-ffiniol mewn ardaloedd sydd wrth ymyl Sir y Fflint, yn ogystal â'r effeithiau o fewn y sir ei hun.

2.2.3 Mae'r CDLl yn amlinellu polisïau ar gyfer y cyfnod hyd at 2030. Mae hwn wedi'i ddefnyddio fel graddfa amserol ar gyfer yr Asesiad o Effaith Integredig, er y bydd effeithiau a all bara tu hwnt i'r cyfnod hwn hefyd yn cael eu nodi. Bydd hyn yn helpu i bennu a yw effeithiau'n debygol o fod yn rhai parhaol (h.y. na ellir eu dad-wneud am o leiaf oes y mesur/cynllun arfaethedig) neu dros dro.

### Cwmpas yr AAS

2.2.4 Mae Rheoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn gofyn bod effeithiau 'arwyddocaol tebygol' ar yr amgylchedd yn cael eu hasesu, gan ystyried y pynciau canlynol a'r gydberthynas rhyngddynt:

- Poblogaeth;
- Bioamrywiaeth;
- Iechyd pobl;
- Anifeiliaid a phlanhigion;
- Pridd;
- Dŵr;
- Aer;
- Ffactorau hinsoddol;
- Asedau materol;
- Treftadaeth Ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol; a'r
- Tirlun.

2.2.5 Mae Atodiad B Adroddiad AEI mis Medi 2019 yn cynnwys y llinell sylfaen amgylcheddol wedi'i ddiweddaru ar gyfer Sir y Fflint a ddefnyddir i lywio'r AEI. Nodwyd, casglwyd a dadansoddwyd y data llinell sylfaen yn ystod y cam Cwmpasu yn 2015 a'i ddiweddaru yn yr ymarfer ail-gwmpasu yn 2017. Mae'n cynnwys y penawdau canlynol:

- Poblogaeth;
- Addysg;
- Bioamrywiaeth, Planhigion ac Anifeiliaid;
- Tirlun;
- Pridd a Daeareg;
- Dŵr;
- Ansawdd Aer a Newid Hinsawdd;
- Treftadaeth Ddiwylliannol;
- Mwynau a Gwastraff;
- Iechyd Pobl;
- Yr Economi Leol;
- Tai;
- Amddifadedd a'r Amgylchedd Byw;
- Cludiant; ac
- Y Gymraeg.

2.2.6 Mae Rheoliadau'r AAS yn gofyn i 'asedau materol' gael eu cynnwys. Mae asedau materol yn cyfeirio at y stoc o asedau gwerthfawr o fewn ardal astudiaeth a gall gynnwys sawl peth, o dirluniau gwerthfawr a threftadaeth naturiol a diwylliannol i'r stoc dai, ysgolion, ysbytai a thir amaethyddol o safon. Ystyrir bod asedau materol yr ardal wedi'u trafod yn briodol fel elfen o amryw o adrannau ac felly bu iddynt gael eu hailadrodd mewn adran ar wahân.

## Cwmpas yr AEaI

2.2.7 Roedd elfennau Asesiad o Effaith ar Iechyd yr Asesiad o Effaith Integredig yn asesu effeithiau'r CDLl ar iechyd y gymuned leol, gan ystyried effeithiau ehangach lle bo hynny'n berthnasol. Roedd hyn yn cynnwys cymunedau yn yr ardal gyfagos, preswylwyr sy'n symud i'r ardal a phobl sy'n dod i weithio, ymweld neu'n teithio trwodd. Ystyriwyd lliniaru'r materion sy'n effeithio'n negyddol ar iechyd (yn cynnwys yn gorfforol, yn feddyliol ac yn emosiynol).

2.2.8 Yn y broses asesu, cafodd yr Asesiad o Effaith ar Iechyd ei integreiddio drwy Fframwaith yr Asesiad o Effaith Integredig cyfan, gan ystyried iechyd, a'r effaith ar iechyd, dan yr holl amcanion perthnasol. Fodd bynnag, yn fwyaf nodedig, cafodd y pwnc 'iechyd pobl' yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol ei drafod yn fwy manwl, i sicrhau bod data llinell sylfaen perthnasol, materion cynaliadwyedd allweddol a chyfleoedd, amcanion a mesurau lliniaru'n cael eu pennu. Mae Tabl 1-1 yn rhoi mwy o wybodaeth ynglŷn â sut cafodd proses yr Asesiad o Effaith ar Iechyd ei integreiddio gyda phroses yr Asesiad o Effaith Integredig.

## Cwmpas yr AEaG

2.2.9 Mae proses yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i chynllunio i sicrhau nad yw prosiectau, polisïau nac arferion yn gwahaniaethu nac yn peri anfantais i bobl ac hefyd i allu ystyried sut y gall cydraddoldeb gael ei wella a'i hybu. Roedd yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn ystyried effaith y CDLl ar grwpiau perthnasol sy'n rhannu nodweddion sydd wedi'u gwarchod dan Ddeddf Cydraddoldeb (oed, anabledd, hil, ffydd, rhywedd (gan gynnwys ailbennu rhywedd), cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil) yn ogystal ag eraill a ystyrir yn agored i niwed mewn cymdeithas, fel grwpiau incwm isel.

2.2.10 Mae'r Adroddiad AEI hwn, sy'n integreiddio gofynion yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb, yn nodi'r materion a gafodd eu nodi fel rhai sy'n berthnasol i'w hystyried yn yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb. Roedd yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn ceisio nodi'r grwpiau hynny a allai gael eu heffeithio gan y cynigion, i ddadansoddi beth oedd yr effeithiau ar gydraddoldeb, a pha fesurau a fyddai'n rhan o'r polisi i leihau neu gael gwared â'r effeithiau niweidiol. Yn y broses asesu, mae'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i integreiddio drwy Fframwaith yr Asesiad o Effaith Integredig cyfan, gan ystyried materion cydraddoldeb dan yr holl amcanion perthnasol. Mae Tabl 1-1 yn rhoi mwy o wybodaeth ynglŷn â sut mae proses yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei integreiddio gyda phroses yr Asesiad o Effaith Integredig.

### Cwmpas yr ARhC

2.2.11 Mae wyth safle yn Sir y Fflint sydd o bwysigrwydd rhyngwladol i natur, a 15 safle arall o fewn 20 cilomedr i'r Sir. Cynhaliwyd ymarfer sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i benderfynu a fyddent (un ai'n unigol ac/neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill) yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd safle Natura 2000, o ran ei amcanion cadwraeth a buddiannau cymwys. Mae'r broses hon wedi'i chofnodi yn Adroddiad Sgrinio'r ARhC. Mae hon yn broses baralel i broses yr Asesiad o Effaith Integredig ac adroddwyd ar hyn ar wahân. Mae'r ARhC wedi diystyru effaith arwyddocaol tebygol y CDLl ar statws cadwraeth unrhyw ddynodiad Ewropeaidd.

## Adolygiad o Gynlluniau, Rhaglenni ac Amcanion Gwarchod yr Amgylchedd Perthnasol

*"Amlinelliad o gynnwys, prif amcanion y cynllun neu'r rhaglen a'r berthynas â chynlluniau neu raglenni perthnasol eraill" Rheoliadau'r AAS, Atodlen 2 (1)*

*"Yr amcanion gwarchod yr amgylchedd, a sefydlwyd ar lefel ryngwladol (Ewropeaidd), gymunedol neu genedlaethol, sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen…a'r ffordd y mae'r amcanion hynny ac unrhyw ystyriaethau amgylcheddol wedi'u hystyried wrth ei baratoi" Rheoliadau'r AAS, Atodlen 2 (5)*

2.2.12 Cynhaliwyd adolygiad o gynlluniau, rhaglenni ac amcanion gwarchod yr amgylchedd eraill a allai effeithio ar baratoi'r CDLl yn ystod cam Cwmpasu'r AEI, er mwyn cyfrannu at ddatblygu'r Asesiad o Effaith Integredig a'r CDLl. Roedd yr adolygiad yn cynnwys dogfennau a baratowyd ar raddfa ryngwladol, genedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae crynodeb o ganlyniadau'r adolygiad o Gynlluniau, Rhaglenni ac Amcanion Gwarchod yr Amgylchedd yn cynnwys:

- Adnabod unrhyw amcanion, dangosyddion neu dargedau cymdeithasol, amgylcheddol neu economaidd allanol y dylid eu hadlewyrchu ym mhroses yr Asesiad o Effaith Integredig.
- Adnabod unrhyw ddata llinell sylfaen sy'n berthnasol i'r Asesiad o Effaith Integredig.
- Adnabod unrhyw ffactorau allanol a allai effeithio ar baratoi'r CDLl, er enghraifft, materion cynaliadwyedd.
- Adnabod unrhyw amcanion neu nodau allanol a fyddai'n cyfrannu'n gadarnhaol tuag at ddatblygu'r CDLl.
- Pennu a oes unrhyw wrthdaro neu heriau posib', clir rhwng cynlluniau, rhaglenni neu amcanion cynaliadwyedd eraill sydd wedi'u nodi a'r CDLl.

## Llinell Sylfaen Cynaliadwyedd a Materion Allweddol Cynaliadwyedd

*"Nodweddion amgylcheddol ardaloedd sy'n debygol o gael eu heffeithio arnynt yn sylweddol" Rheoliadau'r AAS, Atodlen 2 (3)*

*"Unrhyw broblemau amgylcheddol presennol sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen yn cynnwys, yn benodol, y rhai sy'n ymwneud ag unrhyw ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol penodol, fel ardaloedd a ddynodwyd sy'n unol â Chyfarwyddebau 79/409/EEC… a'r Cyfarwyddeb Cynefinoedd" Rheoliadau'r AAS, Atodlen 2 (4)*

2.2.13 Mae disgrifio'r llinell sylfaen, y materion, y cyfleoedd a'r cyd-destun amgylcheddol ac ar gynaliadwyedd yn rhan hanfodol o ddatblygu Fframwaith yr Asesiad o Effaith Integredig. Mae'n cynnwys yr elfennau allweddol canlynol:

- Disgrifio cyflwr presennol yr amgylchedd yn Sir y Fflint gan gynnwys agweddau cymdeithasol ac economaidd; a
- Defnyddio’r wybodaeth hon i ganfod problemau a chyfleoedd cyfredol y gellid eu hystyried yn y CDLl.

2.2.14 Disgrifiwyd y llinell sylfaen amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd drwy’r dulliau canlynol:

- Adolygu cynlluniau, strategaethau a rhaglenni lleol, rhanbarthol a chenedlaethol perthnasol;
- Ymchwil data yn seiliedig ar gyfres o ddangosyddion llinell sylfaen a ddatblygwyd o bynciau Cyfarwyddeb Asesiadau Amgylcheddol Strategol (bioamrywiaeth, poblogaeth, iechyd pobl, planhigion, anifeiliaid, pridd, dŵr, aer, ffactorau hinsoddol, asedau materol, treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol a thirlun), Strategaeth a Ffefrir CDLl Drafft Sir y Fflint, a’r data sydd ar gael ar gyfer Sir y Fflint a Chymru. Roedd hyn yn cynnwys data a oedd yn gysylltiedig â’r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Cafodd data hefyd ei gasglu ar bynciau economaidd-gymdeithasol ychwanegol sy’n gysylltiedig â’r Asesiad o Effaith ar Iechyd a'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb gan gynnwys amddifadedd, tai a chyflogaeth i sicrhau bod ystod eang o faterion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn cael eu hystyried. Roedd casglu data llinell sylfaen hefyd yn galluogi dod o hyd i faterion a chyfleoedd cynaliadwyedd allweddol a oedd yn effeithio ar yr ardal; a
- Chanlyniadau’r Gweithdy Cwmpasu gyda budd-ddeiliaid ym mis Ionawr 2015.

2.2.15 Ar ôl adolygu’r llinell sylfaen hon yn ofalus, nodwyd y materion a’r cyfleoedd cynaliadwyedd allweddol ar gyfer y sir. Yn gryno, roedd y rhain yn seiliedig ar y pynciau canlynol:

- Mae pwysau sy’n gysylltiedig â phoblogaeth sy’n mynd yn hŷn yn Sir y Fflint yn debygol o achosi problemau ar draws y Sir;
- Cyfleoedd i gynyddu faint o drigolion Sir y Fflint o oedran gweithio sydd â chymwysterau da;
- Pwysau poblogaeth a datblygu ar safleoedd a warchodir a safleoedd heb eu gwarchod ar gyfer cadwraeth natur yn ogystal â chysylltedd cynefinoedd;
- Yr angen am fynediad teg i fannau gwyrdd;
- Pwysau posibl o ddatblygiad i nodweddion gwerthfawr trefluniau a thirluniau;
- Etifeddiaeth cloddio plwm yn arwain at ardaloedd o dir llygredig gweddilliol;
- Yr angen i warchod a gwella safleoedd o bwysigrwydd rhanbarthol ar gyfer daeareg;
- Bygythiad mwy o lifogydd dŵr wyneb oherwydd bod mwy o wlybaniaeth o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd;
- Llifogydd arfordirol yn fwy tebygol oherwydd bod lefel y môr yn codi o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd;
- Risgiau’n gysylltiedig â llifogydd a symud llygryddion sy’n gysylltiedig â thir llygredig yn y Sir;
- Cyfle i wella’r potensial ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr;
- Cyfle i wella gallu’r Sir i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd;
- Risgiau posibl o ddatblygiad i asedau treftadaeth dynodedig a heb fod yn ddynodedig a gweddillion archeolegol nas darganfuwyd drwy gydol y Sir;
- Llai o adnoddau mwynol gwerthfawr yn y Sir a chyfleoedd i ddiogelu asedau ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol;
- Cyfleoedd i gynyddu faint o wastraff sy’n cael ei ailgylchu, ei ailddefnyddio a’i gompostio, a fyddai fel arall yn mynd i safle tirlenwi;
- Mae pocedi o amddifadedd iechyd yn y Sir;
- Lefelau gwael o weithgaredd corfforol ymysg y boblogaeth leol o’i chymharu â’r canllawiau a argymhellwyd;
- Dylid chwilio am gyfleoedd o ran gofal iechyd er mwyn gostwng y gyfradd farwolaethau gynyddol ar draws Sir y Fflint;
- Mae pocedi o amddifadedd cyflogaeth ar draws y Sir ac mae cynnydd wedi bod mewn diweithdra a phobl yn hawlio budd-daliadau diweithdra;

- Dylid chwilio am gyfleoedd i annog mewnfuddsoddiad i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a busnes;
- Mae pocedi o amddifadedd tai yn y Sir; prinder tai fforddiadwy; a lefel gynyddol o dai amlfeddiannaeth;
- Dylid chwilio am gyfleoedd i ddarparu tai sy'n diwallu anghenion lleol, gan gynnwys darparu tai fforddiadwy;
- Mae yno ganran uchel o ardaloedd yn Sir y Fflint sy'n profi amddifadedd mewn perthynas â'r amgylchedd ffisegol;
- Mae rhai o'r canol trefi yn dangos dirywiad o fewn y Sir;
- Mae angen adeiladu ar gyfraddau troseddu sy'n gostwng a lleihau'r ofn o droseddau;
- Mae cyfle i leihau anghydraddoldebau ar draws y Sir, yn cynnwys ardaloedd lle mae lefelau uchel o amddifadedd ymysg plant;
- Mae mwy o ddibyniaeth ar deithio â char a mwy o ddefnydd o geir/faniau i deithio i'r gwaith ac mae'r pellteroedd a deithiwyd yn cynyddu;
- Mae pryder mewn ardaloedd poblog ynglŷn â chludiant a hygyrchedd at wasanaethau allweddol, gan gynnwys ysbytai;
- Mae nifer uchel o farwolaethau/anafiadau difrifol ar ffyrdd Sir y Fflint o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol;
- Dylid chwilio am gyfleoedd i leihau faint sy'n defnyddio car/fan i deithio a chynyddu'r nifer sy'n defnyddio dulliau teithio gwyrdd mwy cynaliadwy;
- Mae'r nifer sy'n rhugl yn y Gymraeg yn Sir y Fflint i'w weld yn cynyddu, ond mae cyfradd y nifer nad ydynt yn rhugl yn cynyddu'n gynt, sy'n awgrymu bod dirywiad yn y Sir o ran siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol; a
- Dylid chwilio am gyfleoedd i gynyddu faint mae pobl yn dod i gysylltiad â'r Gymraeg.

## Ystyriaethau traws-ffiniol

2.2.16 Mae gan y Sir nifer o gysylltiadau ag ardaloedd eraill, fel Glannau Merswy a Chaer a'r siroedd eraill sydd o'i hamgylch yng Nghymru. Mae cysylltiadau da i mewn ac allan o'r Sir sy'n darparu cyfleoedd am fewnfuddsoddi yn ogystal â galluogi pobl yn y Sir i gael mynediad da at gyfleoedd gwaith mewn ardaloedd eraill.

2.2.17 Mae 'Economi Drawsffiniol Rhanbarth Dyfrdwy 2013: camau nesaf' yn nodi bod rhanbarth economaidd gweithredol, trawsffiniol cryf sy'n cynnwys Wrecsam, Caer, Glannau Dyfrdwy ac Ellesmere Port. Mae pobl yn masnachu heb roi llawer o sylw i'r ffin rhwng dwy wlad ac, yn yr un modd, nid yw patrymau teithio'n cydnabod ffin Cymru/Lloegr, gan fod 83% o'r holl deithiau'n cychwyn ac yn gorffen yn is-ranbarth Dyfrdwy. Mae llif cymudo mawr o'r gorllewin i'r dwyrain i'r prif ganolfannau cyflogaeth yng Nglannau Dyfrdwy, Wrecsam, Caer ac Ellesmere Port. Yn ymarferol, mae'r gweithgarwch economaidd trawsffiniol yn rhoi pwysau sylweddol ar farchnad dai Sir y Fflint; ar isadeiledd fel cyfleusterau gwastraff; ac o ran creu swyddi (mae Sir y Fflint yn gyflogwr net gyda chyfradd ddiweithdra o 4% o gymharu â chanran diweithdra cyfartalog Cymru o 4.8%).

2.2.18 Er bod yr economi'n perfformio'n dda, gan fod pobl yn teithio allan o'r Sir yn ddyddiol er mwyn mynd i weithio, gallai hynny fod yn cael effaith ar lefel y twf economaidd a gwariant personol yn y Sir. Mae llif o weithwyr yn teithio i mewn i Sir y Fflint hefyd ond mae llif net allan o'r Sir. Yn wir, mae diffyg canolfan drefol fawr yn y Sir yn golygu bod nifer o bobl yn teithio i Gaer at ddibenion manwerthu. Mae potensial mawr i'r Sir o ran twristiaeth oherwydd ei hamgylchedd o safon uchel ac ystyrir bod cyfanswm gwariant twristiaid yn cynyddu. Os yw pobl yn parhau i symud i ardaloedd gwledig y Sir, gallai hynny barhau i greu problemau o ran fforddiadwyedd tai.

## Fframwaith yr Asesiad o Effaith Integredig

2.2.19 Mae Fframwaith yr Asesiad o Effaith Integredig yn cynnwys cyfres o Amcanion Cynaliadwyedd (yn ymdrin â materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol) a gafodd eu defnyddio i brofi perfformiad y cynllun sy’n cael ei asesu. Er nad yw Rheoliadau’r Asesiadau Amgylcheddol Strategol yn mynnu bod amcanion yn cael eu defnyddio, maent yn offeryn sy'n cael ei gydnabod wrth asesu ac maent yn uchelgeisiau/nodau y dylai awdurdod/sefydliad weithio tuag at eu cyflawni.

2.2.20 Mae amcanion yr Asesiad o Effaith Integredig yn wahanol i amcanion y CDLl, ond efallai fod rhai agweddau yr un fath. Er mwyn helpu i fesur perfformiad elfennau’r CDLl o ran Amcanion yr Asesiad o Effaith Integredig, mae o fudd os ydynt wedi’u cefnogi gan gyfres o ddangosyddion. Dylid casglu data llinell sylfaen i ategu pob un o'r dangosyddion, gan fod hyn yn rhoi ffordd o weld perfformiad cyfredol ar draws ardal Sir y Fflint a mesur faint o ymyrraeth neu faint o waith sydd ei angen i gyflawni’r targedau sydd wedi’u nodi.

2.2.21 Cafodd Fframwaith yr Asesiad o Effaith Integredig ei ddatblygu drwy ddefnyddio Fframwaith yr AEI o’r Adroddiad Cwmpasu (2015) fel sail. Cafodd hwn ei ddadansoddi a’i fireinio, gan ddefnyddio’r canlynol:

- Cymharu yn erbyn y cynlluniau, y rhaglenni a’r amcanion diogelu’r amgylchedd sydd wedi’u diweddaru a'r materion a'r cyfleoedd cynaliadwyedd allweddol sydd wedi'u nodi;
- Cymharu â’r Arfarniadau o Gynaliadwyedd sydd wedi’u datblygu ar gyfer Cynlluniau Lleol cyfagos;
- Canfyddiadau o’r Gweithdy Cwmpasu;
- Sylwadau ymgynghori ar yr Adroddiad Cwmpasu (2015) a’r Arfarniad o Ddewisiadau (2016); ac
- Ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a’r Ymarfer Ail-gwmpasu a wnaed mewn perthynas â Fframwaith yr AEI ym mis Awst 2017.

2.2.22 Mae Fframwaith yr AEI a ddefnyddiwyd i asesu’r CDLl wedi’i gyflwyno yn Nhabl 2-1. Mae pob un o Amcanion yr Asesiad o Effaith Integredig wedi’u hategu gan gyfres o is-amcanion er mwyn rhoi mwy o eglurder a hwyluso'r broses asesu. Nid yw’r amcanion yn annibynnol ar ei gilydd, a dylid ystyried y fframwaith asesu yn ei gyfanrwydd. O ganlyniad, nid yw Amcanion yr AEI yn cael eu cyflwyno mewn unrhyw drefn benodol, ac ystyrir bod yr holl Amcanion yr un mor bwysig â'i gilydd.

2.2.23 Mae Amcanion yr AEI hefyd yn cael eu hategu gan ddangosyddion, sy’n cysylltu â’r rhai a ddefnyddir i ddisgrifio amodau’r llinell sylfaen ar draws yr ardal. Lle nad yw data llinell sylfaen ar gael ar hyn o bryd, mae dangosyddion wedi’u hawgrymu o ran y math o wybodaeth a allai fod yn briodol. Drwy gydol cyfnod yr Asesiad o Effaith Integredig, mae targedau mesuredig wedi’u nodi i ategu'r fframwaith hwn, ar y cyd gyda Chyngor Sir y Fflint.

*Tabl 2-1: Fframwaith yr AEI*

| Is-amcanion | Dangosyddion | Targedau | Ffynhonnell | Cysylltiad â meysydd eraill yr AEI | Perthnasedd â'r Nodau Lles |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 1 yr AEI: Lleihau nifer y troseddau, anrhefn ac ofn o droseddau** | | | | | |
| • **Gostwng lefelau troseddu**<br>• **Lleihau'r ofn o droseddau**<br>• **Gostwng lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol**<br>• **Gostwng cyfraddau lladradau**<br>• **Annog diogelwch drwy ddylunio** | • Cyfraddau troseddu fesul 1,000 o'r boblogaeth ar gyfer troseddau allweddol.<br>• Nifer a gwasgariad y wardiau sydd ag Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig o ran trosedd. | • Gostwng lefelau troseddu yn is na'r lefel bresennol.<br>• Sicrhau'r cyhoedd, lleihau'r ofn o droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>• Gostwng nifer y wardiau sydd ag Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig. | Cynllun Gwella Sir y Fflint 2014-2015 | Cydraddoldeb Iechyd | **Cymru Iachach**<br>**Cymru sy'n fwy cyfartal**<br>**Cymru o Gymunedau Cydlynus** |
| **Amcan 2 yr AEI: Gwella lefelau cyrhaeddiad addysgol ar gyfer pob grŵp oed a phob sector yn y gymdeithas** | | | | | |
| • **Gwella lefelau cyfranogiad a chyrhaeddiad addysgol ar gyfer pawb yn y gymdeithas**<br>• **Gwella mynediad at a chyfranogiad mewn cyfleoedd dysgu gydol oes**<br>• **Gwella darpariaeth cyfleusterau addysg a hyfforddiant**<br>• **Gwella cymwysterau a sgiliau ar gyfer pob rhan o'r gymuned** | • Canran y dysgwyr yn ysgolion yr awdurdod lleol sy'n ennill pum TGAU neu fwy gradd A* - C neu gymhwyster galwedigaethol cyfwerth.<br>• Lleihau nifer y lleoedd gwag.<br>• Canlyniadau mewn Mathemateg, Cymraeg neu Saesneg Iaith Gyntaf a Dangosydd Pynciau Craidd ym mhob Cyfnod Allweddol<br>• Cyrraedd cerrig milltir Ysgolion yr 21ain Ganrif yn unol â'r dyddiadau targed<br>• Canran y bobl rhwng 16 a 74 oed sydd â Chymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ) lefel 4/5.<br>• Canran y boblogaeth breswyl rhwng 16 a 74 oed sydd heb gymwysterau.<br>• Nifer y sefydliadau addysg o fewn y Sir.<br>• Canran y bobl rhwng 16 a 74 oed sydd wedi ennill cymhwyster Lefel 4 neu Lefel 5.<br>• Canran y bobl rhwng 16 a 74 oed sydd wedi ennill NVQ Lefel 1-4. | • Gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd.<br>• Parhau i weithredu rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif<br>• Gwella rhagolygon addysg, hyfforddiant a gwaith i bobl ifanc hyd at 25 oed | Cynllun Gwella Sir y Fflint 2014-2015<br>Cynllun Integredig Sengl Sir y Fflint 2013 - 2017 | Cydraddoldeb Iechyd | **Cymru Iachach**<br>**Cymru sy'n fwy cyfartal**<br>**Cymru o Gymunedau Cydlynus**<br>**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** |
| **Amcan 3 yr AEI: Gwella iechyd corfforol ac iechyd meddwl a lles i bawb a lleihau anghydraddoldebau o ran iechyd** | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| • **Gwella mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig mewn ardaloedd anghysbell**<br>• **Lleihau anghydraddoldeb o ran iechyd ymysg gwahanol grwpiau yn y gymuned**<br>• **Hyrwyddo ffordd o fyw iach** | • Nifer y wardiau yn y 10% mwyaf difreintiedig o ran iechyd ac anableddau.<br>• Canran y boblogaeth breswyl sy'n ystyried eu hunain yn iach.<br>• Disgwyliad oes ar adeg geni i ddynion a merched.<br>• Cymhareb Farwolaethau Safonedig a chyfraddau marwolaethau babanod. | • Gwella pa mor hawdd yw cael gafael ar wybodaeth, gwasanaethau a chyngor am iechyd.<br>• Gostwng cyfraddau marwolaethau babanod.<br>• Ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio gwasanaethau iechyd a hybu iechyd, yn enwedig i bobl sy'n anodd eu cyrraedd a phobl diamddiffyn, a fydd hefyd yn helpu i gynyddu canran y bobl sy'n cael eu hystyried i fod mewn iechyd da neu dda iawn. | Iechyd Da, Gofal Da yn Sir y Fflint 2011-2014<br>Strategaeth Fframwaith Mannau Gwyrdd ar gyfer Sir y Fflint 2013 | Cydraddo Ideb Iechyd | **Cymru lewyrchus**<br>**Cymru gydnerth**<br>**Cymru iachach**<br>**Cymru sy'n fwy cyfartal** |

| Is-amcanion | Dangosyddion | Targedau | Ffynhonnell | Cysylltiad â meysydd eraill yr AEI | Perthnasedd â'r Nodau Lles |
|---|---|---|---|---|---|
| • **Annog datblygu cymunedau cryf a chydlynol** | • Canran y bobl sy'n cael eu hystyried i fod mewn iechyd da neu dda iawn.<br>• Canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon neu ymarfer corff yn rheolaidd (wedi'i ddiffinio fel cymryd rhan o leiaf 3 diwrnod yr wythnos mewn chwaraeon cymharol ddwys a gweithgareddau hamdden egnïol am o leiaf hanner awr yn barhaus mewn un sesiwn).<br>• Cyfradd feichiogi rhai dan 18 oed (fesul 1,000 o rai 15-17 oed). | • Gostwng cyfradd feichiogi merched yn eu harddegau.<br>• Gostwng nifer y wardiau sydd ag Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer iechyd.<br>• Sicrhau bod darpariaeth briodol a hygyrch o fannau gwyrdd ar gael i bob cymuned. | | | **Cymru o gymunedau cydlynus** |
| **Amcan 4 yr AEI: Darparu mynediad at dai fforddiadwy o ansawdd da sy'n diwallu anghenion a gofynion y gymuned** | | | | | |
| • **Sicrhau bod digon o dai i ddiwallu anghenion hysbys ym mhob ardal, gan gynnwys tai gwledig**<br>• **Sicrhau bod tai'n bodloni safonau derbyniol**<br>• **Cynyddu faint o dai fforddiadwy sydd ar gael**<br>• **Cynyddu faint o dai sydd ar gael i fyw'n annibynnol**<br>• **Gostwng lefelau digartrefedd**<br>• **Gostwng nifer yr aelwydydd sy'n dlawd o ran incwm** | • Prisiau tai cyfartalog o gymharu â chyfartaledd rhanbarthol a chenedlaethol.<br>• Nifer yr aelwydydd sy'n byw mewn math o lety.<br>• Nifer y tai amlfeddiannaeth.<br>• Darpariaeth tai fforddiadwy ychwanegol.<br>• Cyfran y tai sy'n wag. | • Gwella amodau tai mewn ardaloedd difreintiedig.<br>• Ansawdd tai – Dylai asesiadau 'Building for Life' gael sgôr o 100%.<br>• Darparu ystod o dai gan gynnwys tai fforddiadwy.<br>• Gostwng nifer yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig o ran gwasanaethau a rhwystrau i gael tŷ. | Strategaeth Tai Lleol Sir y Fflint 2012-2017 | Cydraddoldeb Iechyd | **Cymru lewyrchus**<br>**Cymru gydnerth**<br>**Cymru iachach**<br>**Cymru sy'n fwy cyfartal**<br>**Cymru o gymunedau cydlynus**<br>**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**<br>**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** |
| **5. Gwella mynediad cynaliadwy at nwyddau, gwasanaethau ac amwynderau sylfaenol i bob grŵp** | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| • **Sicrhau bod gwasanaethau cludiant cyhoeddus yn diwallu gallu ac anghenion pawb**<br>• **Sicrhau bod isadeiledd priffyrdd yn diwallu anghenion pobl (gan gynnwys llwybrau cerdded a beicio)**<br>• **Hybu defnyddio dulliau cynaliadwy o deithio a dod yn llai dibynnol ar gar preifat**<br>• **Gwella mynediad at gyfleusterau diwylliant a hamdden, gan gynnwys diwylliant a threftadaeth Cymru** | • Siwrnai i'r gwaith yn ôl y dull.<br>• Pellter a deithiwyd i'r gwaith.<br>• Cyflwr ffyrdd.<br>• Nifer y wardiau yn y 10% mwyaf difreintiedig o ran rhwystrau at gael gwasanaethau.<br>• Canran y preswylwyr sy'n ei chael yn hawdd defnyddio gwasanaethau lleol allweddol yn eu cymdogaeth. | • Gostwng nifer yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is sydd yn y 10% isaf.<br>• Gwella mynediad i ardaloedd anghysbell.<br>• Gwella cysylltiadau cludiant i gymunedau gwledig, yn enwedig darpariaeth o gludiant cynaliadwy. | Strategaeth Adfywio Sir y Fflint 2009-2020<br>Cyd-gynllun Cludiant Lleol Gogledd Cymru 2015- 2020<br>Arolwg Mannau Agored Cyngor Sir y Fflint 2007 | Cydraddoldeb<br>Iechyd<br>Y Gymraeg | **Cymru lewyrchus**<br>**Cymru gydnerth**<br>**Cymru iachach**<br>**Cymru sy'n fwy cyfartal**<br>**Cymru o gymunedau cydlynus**<br>**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** |

| Is-amcanion | Dangosyddion | Targedau | Ffynhonnell | Cysylltiad â meysydd eraill yr AEI | Perthnasedd â'r Nodau Lles |
|---|---|---|---|---|---|
| • **Cynnal a gwella mynediad at wasanaethau a chyfleusterau hanfodol, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig**<br>• **Gwella mynediad i fannau agored**<br>• **Gwarchod a gwella cyfleoedd i'r cyhoedd gael mynediad i gefn gwlad ac at yr arfordir** | | | Strategaeth ac Uwchgynllun y Fflint hyd at 2021<br>Cynllun Gweithredu Tref Bwcle 2009-2012 | | **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** |
| **6. Creu cymunedau cryf a chydlynol** | | | | | |
| • **Gwella cydlyniant cymunedol a chyfleoedd o ran cydraddoldeb**<br>• **Lleihau anghydraddoldeb rhyw/oed/anabledd/hil/crefydd**<br>• **Sicrhau y gall plant sydd ag unrhyw fath o anabledd fyw bywydau llawn ac annibynnol**<br>• **Sicrhau y gall plant fyw bywyd o safon sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol**<br>• **Sicrhau y gall plant ddatblygu'n iach a bod ganddynt fynediad at ofal iechyd o ansawdd da, dŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân** | • Nifer yr adroddiadau am droseddau casineb yn ôl nodwedd warchodedig.<br>• Canran y bobl sy'n teimlo bod eu hardal leol yn lle y gall pobl o wahanol gefndiroedd gyd-fyw.<br>• Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo eu bod yn perthyn i'w cymdogaeth. | • Lleihau anghydraddoldeb o ran iechyd.<br>• Lleihau canlyniadau anghyfartal mewn addysg er mwyn gwneud y gorau o botensial unigolion.<br>• Lleihau anghydraddoldeb o ran cyflogaeth.<br>• Lleihau anghydraddoldeb o ran diogelwch personol.<br>• Lleihau anghydraddoldeb o ran cael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau a mynediad i adeiladau a'r amgylchedd.<br>• Cynyddu canran y bobl sy'n teimlo bod eu hardal leol yn lle y gall pobl o wahanol gefndiroedd gyd-fyw.<br>• Cynyddu canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo eu bod yn perthyn i'w cymdogaeth. | Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru<br>Nodyn Cyngor Technegol 2 | Cydraddoldeb<br>Iechyd | **Cymru lewyrchus**<br>**Cymru gydnerth**<br>**Cymru iachach**<br>**Cymru sy'n fwy cyfartal**<br>**Cymru o gymunedau cydlynus**<br>**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** |
| **7. Hybu economi gynaliadwy, datblygiad busnes a buddsoddi** | | | | | |
| PE1.11 | River Lane | Cyflogaeth |
| PE1.12 | Rowley's Drive | Cyflogaeth |
| STR3A | Safle Datblygiad Defnydd Cymysg Porth y Gogledd | Safle Strategol Defnydd Cymysg |
| STR3B | Safle Datblygiad Defnydd Cymysg Warren Hall | Safle Strategol Defnydd Cymysg |
| EN13.1 | Iard Crump's, Dock Road | Ffermydd Solar |
| EN13.2 | Castle Park | Ffermydd Solar |

2.3.26 Bu i'r asesiadau o ddyraniadau safleoedd tai nodi amrywiaeth o effeithiau. Mae nifer o ffiniau'r safleoedd preswyl yn cynnwys tir sydd mewn perygl o lifogydd ac ni ellid diystyru'r mân effeithiau negyddol ar y rhan fwyaf o'r amcanion amgylchedd naturiol. Byddai dyrannu'r safleoedd hyn yn helpu i sicrhau bod anghenion tai amrywiol poblogaeth sy'n tyfu Sir y Fflint yn cael eu bodloni dros gyfnod y Cynllun. Gall lleoliad y safleoedd tai yn gyffredinol helpu i sicrhau bod gan breswylwyr newydd fynediad da neu ardderchog at wasanaethau, amwynderau a gofodau allweddol yn cynnwys ysgolion, canolfannau iechyd, mannau cyflogaeth, canolfannau cymunedol, mannau manwerthu a chyfleoedd hamdden.

2.3.27 Yn gyffredinol, mae'r dyraniadau safleoedd cyflogaeth yn y CDLl mewn lleoliadau hygyrch iawn a byddai disgwyl iddynt wneud cyfraniad mawr tuag at sicrhau bod anghenion cyflogaeth yn y Sir yn cael eu diwallu dros gyfnod y Cynllun. Mae llawer o'r safleoedd cyflogaeth o fewn ardaloedd lle ceir perygl mawr o lifogydd ac efallai bydd angen lleoli datblygiadau'n ofalus i sicrhau bod datblygiadau newydd yn osgoi perygl o lifogydd nad yw'n gydnaws ag ef. Gall colli mannau agored i ddatblygiadau cyflogaeth newydd beri risg i gymeriad a bioamrywiaeth leol. Trwy Newidiadau y Materion sy'n Codi, mae chwe safle cyflogaeth wedi'u tynnu o Bolisi PE1:

- PE1.4 Parc Busnes Maes Glas, Cam II
- PE1.5 Parc Busnes Maes Glas, Cam III
- PE1.6 Ystâd Ddiwydiannol Broncoed
- PE1.8 Gerllaw Dociau Mostyn
- PE1.10 Ystâd Ddiwydiannol Antelope
- PE1.12 Rowley's Drive

2.3.28 Mae'r CDLl yn dyrannu i safleoedd strategol ar gyfer datblygiad defnydd cymysg trwy Bolisi STR3. Byddai'r ddau safle yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at fodloni anghenion tai a chyflogaeth cynyddol ac amrywiol Sir y Fflint a gallant roi hwb mawr i'r economi leol. O ystyried maint y safleoedd hyn, a bod cyfran fawr o'r safleoedd yn dir glas, mae perygl o gael effaith negyddol ar amcanion yr amgylchedd naturiol, yn enwedig ar adnoddau naturiol o ystyried y golled sylweddol posibl mewn pridd sy'n bwysig yn ecolegol ac yn amaethyddol. Cafodd y dyraniadau safle hyn eu diwygio trwy

Newidiadau y Materion sy'n Codi, ond bu i'r diwygiadau arwain at newidiadau cadarnhaol i'r perfformiad cynaliadwyedd mewn perthynas ag Amcanion amgylcheddol yr AEI. Cafodd y defnydd arfaethedig yn STR3B ei ddiwygio trwy Newidiadau y Materion sy'n Codi, gyda'r 300 o dai a gynigiwyd yn flaenorol wedi'u tynnu o'r dyraniad, ac felly, nid oedd y safle yn sgorio'n gadarnhaol mwyach mewn perthynas â thai.

2.3.29 O ystyried natur cyfleusterau cymunedol (PC12.1 – PC12.3), disgwylir i'r effeithiau ar y rhan fwyaf o Amcanion yr AEI fod yn niwtral neu'n ddibwys. Byddai darparu'r cyfleusterau hyn, sydd fel arfer mewn lleoliadau hygyrch, yn debygol o ddarparu manteision i'r gymuned leol a gall helpu i leihau'r risg o drosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol.

2.3.30 Byddai'r dyraniadau safle Sipsiwn a Theithwyr yn y CDLl yn helpu i sicrhau bod anghenion y gymuned sipsiwn, teithwyr a phobl sioeau teithiol yn Sir y Fflint yn cael eu diwallu dros gyfnod y Cynllun. Mae'r safleoedd hyn fel arfer mewn lleoliadau hynod hygyrch a byddant yn rhoi mynediad da i ddefnyddwyr y safle at wasanaethau, amwynderau a chyfleusterau allweddol. Trwy Newidiadau y Materion sy'n Codi, gwnaed newidiadau i safle HN8-1, i gynyddu nifer y llieiniau o 8 i 9, ac i HN8-2, i leihau nifer y llieiniau o 8 i 4. Ni wnaeth y newidiadau hyn arwain at newidiadau i'r sgorau AEI a nodwyd.

2.3.31 Mae Polisi EN25 yn dyrannu pedwar safle mwynau ar gyfer gwneud estyniadau i'r datblygiad mwynau. Gall estyniadau i'r datblygiad mwynau roi hwb mawr i gyfleoedd cyflogaeth yn y diwydiant hwn a gall helpu i ddarparu enillion economaidd mawr i Sir y Fflint.

2.3.32 Cafodd y ddau ddyraniad ffermydd solar o dan Bolisi EN13 eu tynnu o'r CDLl, gan eu bod wedi'u hadeiladu.

2.3.33 Nid oes unrhyw safleoedd newydd wedi'u cynnig trwy'r broses Newidiadau y Materion sy'n Codi ac mae'r holl safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLl wedi'u hasesu mewn adroddiadau blaenorol yr AEI.

2.3.34 Mae'r sgorau ar gyfer yr holl safleoedd terfynol a ddyrannwyd wedi'u nodi yn Nhabl 2-6.

*Tabl 2-6: Y sgorau a gofnodwyd ar gyfer pob safle a ddyrannwyd yn erbyn pob Amcan yr AEI*

| Polisi / Cyfeirnod Safle | Amcanion yr AEI | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 Trosedd | 2 Addysg | 3 Iechyd | 4 Tai | 5 Mynediad | 6 Cymunedau | 7 Economi | 8 Cyflogaeth | 9 Bywyd Gwledig | 10 Bioamrywiaeth | 11 Tirlunio | 12 Treftadaeth | 13 Dŵr | 14 Llifogydd | 15 Allyriadau | 16 Ynni | 17 Adnoddau | 18 Y Gymraeg |
| H1.1 | O | + | + | ++ | + | ++ | O | ++ | O | - | - | - | - | - | - | - | - | + |
| H1.2 | - | + | + | + | + | ++ | O | ++ | O | - | - | O | - | O | - | - | - | + |
| H1.3 | - | ++ | + | ++ | - | ++ | O | ++ | O | - | - | O | O | O | - | - | - | + |
| H1.4 | O | ++ | + | ++ | - | ++ | O | ++ | O | - | - | -- | -- | -- | - | - | - | + |
| H1.5 | O | ++ | ++ | ++ | ++ | ++ | O | ++ | O | - | - | - | -- | O | - | - | - | ++ |
| H1.6 | - | + | + | ++ | + | - | O | ++ | O | - | - | - | -- | O | - | - | - | ++ |
| H1.7 | O | +/- | - | ++ | - | ++ | O | ++ | O | - | -- | O | - | -- | - | - | - | + |
| H1.8 | O | +/- | ++ | ++ | + | - | O | + | O | - | - | -- | -- | - | - | - | - | + |
| H1.9 | O | ++ | + | + | ++ | - | O | + | O | -- | - | - | -- | - | - | - | - | + |
| H1.10 | O | + | ++ | ++ | ++ | - | O | + | O | - | - | - | - | -- | - | - | - | + |
| H1.11 | O | ++ | + | ++ | - | ++ | O | + | O | - | - | O | -- | O | - | - | - | + |
| PE1.1 | + | + | O | O | - | + | ++ | ++ | O | - | - | O | -- | -- | - | - | - | O |
| PE1.2 | + | + | O | O | - | + | ++ | ++ | O | - | - | O | -- | -- | - | - | - | O |
| PE1.3 | + | + | O | O | ++ | + | ++ | ++ | O | -- | - | O | - | -- | - | - | - | O |
| PE1.7 | + | + | O | O | - | + | ++ | ++ | O | - | - | - | -- | -- | - | - | - | O |
| PE1.9 | + | + | O | O | ++ | + | ++ | ++ | O | - | - | - | -- | - | - | - | - | O |
| PE1.11 | + | + | O | O | + | + | ++ | ++ | O | -- | - | O | -- | + | - | - | - | O |
| STR3A | +/- | ++ | + | ++ | ++ | - | ++ | ++ | O | - | - | - | - | + | - | - | - | O |
| STR3B | + | + | O | O | + | O | ++ | ++ | O | - | - | - | -- | - | - | - | -- | O |

| Polisi / Cyfeirnod Safle | Amcanion yr AEI<br>1 Trosedd | 2 Addysg | 3 Iechyd | 4 Tai | 5 Mynediad | 6 Cymunedau | 7 Economi | 8 Cyflogaeth | 9 Bywyd Gwledig | 10 Bioamrywiaeth | 11 Tirlunio | 12 Treftadaeth | 13 Dŵr | 14 Llifogydd | 15 Allyriadau | 16 Ynni | 17 Adnoddau | 18 Y Gymraeg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PC12.1 | + | O | O | O | + | ++ | O | O | O | - | - | O | O | O | O | O | O | O |
| PC12.2 | + | O | O | O | + | ++ | O | O | O | - | - | O | O | O | O | O | O | O |
| PC13. 3 | + | O | O | O | + | ++ | O | O | O | - | - | O | O | O | O | O | O | O |
| HN8-1 | O | - | + | + | - | ++ | O | + | O | - | - | O | - | O | - | - | - | O |
| HN8-2 | O | - | ++ | + | + | ++ | O | + | O | - | - | O | - | O | - | - | - | O |
| HN8-3 | O | + | + | + | ++ | ++ | O | + | O | - | - | O | - | O | - | - | - | O |
| HN8-4 | O | + | + | + | + | + | O | + | O | - | - | O | - | O | - | - | - | O |
| EN25-1 | O | + | O | + | O | + | ++ | ++ | O | O | O | O | - | O | - | - | + | O |
| EN25-2 | O | + | O | + | O | + | ++ | ++ | O | O | O | O | - | O | - | - | + | O |
| EN25-3 | O | + | O | + | O | - | ++ | ++ | O | - | - | O | - | O | - | - | - | O |
| EN25-4 | O | + | O | + | O | + | ++ | ++ | O | O | O | O | - | O | - | - | + | O |
| EN13-1 | O | O | O | O | O | O | + | O | O | - | O | O | O | O | + | ++ | O | O |
| EN13-2 | O | O | O | O | O | O | + | O | O | - | O | O | O | O | + | ++ | O | O |

## Argymhellion

2.3.35 Gwnaed ystod eang o argymhellion wrth Gyflwyno'r AEI ochr yn ochr â'r asesiadau, fel y crynhoir yn Nhabl 2-7. Mae'r Cyngor wedi darparu gwybodaeth ar sut y mae'r argymhellion hyn wedi'u hystyried yn y broses gwneud cynlluniau. Mae'r argymhellion hyn wedi'u nodi yn unol ag Amcan yr AEI, ac mae'r ymatebion gan y Cyngor yn ymwneud â pholisïau penodol yn y CDLl.

2.3.36 Ni awgrymwyd unrhyw argymhellion pellach yn dilyn yr asesiad o Newidiadau y Materion sy'n Codi, gan fod y newidiadau yn arwain at welliannau yn nhermau effeithiau'r AEI.

*Tabl 2-7: Crynodeb o'r mesurau a argymhellwyd ar gyfer pob Amcan yr AEI yn Adroddiad Cyflwyno'r AEI a sut mae'r argymhellion hyn wedi'u hystyried*

| Amcan yr AEI | Crynodeb o'r Argymhellion | Sut mae'r argymhelliad wedi'i ystyried? |
|---|---|---|
| **1 Trosedd** | Lle byddai'r datblygiadau wedi'u lleoli mewn ardaloedd o gyfraddau troseddau gymharol uchel, dylai'r cynigion arddangos bod dyluniad y datblygiad yn ymgorffori mesurau ar gyfer lleihau'r risg o droseddau ac yn lleihau'r cyfleoedd ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol, fel drwy hwyluso cyfraddau uchel o wyliadwriaeth naturiol, darparu mannau storio diogel ar gyfer beiciau neu ddarparu parthau cyhoeddus wedi'u goleuo'n dda. | Mae Polisi PC2 yn darparu nifer o feini prawf a fydd yn gweithio tuag at gyflawni hyn trwy fesurau dylunio. Mae Polisi PC3 yn gofyn ym meini prawf f) 'creu mannau deniadol, hygyrch a diogel ac iach gyda mesurau gwyliadwriaeth naturiol, gweledebb a goleuadau sensitif'.<br>Mae paragraff 12.67 o'r eglurhad i bolisi EN18 yn cydnabod bod cydbwysedd rhwng goleuo yn nhermau diogelwch a lleihau trosedd ac achosi llygredd golau.<br>Mae PCC11 yn nodi yn Ffigur 8 bod 'diogelwch cymunedol' yn rhan allweddol o Ddylunio Da ac yn nodi 'Sicrhau mannau cyhoeddus deniadol a diogel / diogelwch trwy wyliadwriaeth naturiol'.<br>Ystyrir bod cyd-destun cyfunol polisi cenedlaethol a lleol yn darparu'r sylfaen ar gyfer cyflawni hyn. |
| **2 Addysg** | Lle byddai datblygiad preswyl newydd yn rhoi pwysau ar gapasiti ysgolion lleol, dylid arddangos capasiti ystafell ddosbarth priodol cyn cymeradwyo'r datblygiad. Lle bo'n angenrheidiol, gellir ystyried cyfraniadau gan ddatblygwyr tuag at ehangu ysgolion. | Mae Polisi STR6 yn amlinellu gofyniad amlwg ym meini prawf ii) i ddatblygiad newydd liniaru'r effeithiau ar gapasiti ysgolion. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy'r CCA presennol a fydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun. |

| Amcan yr AEI | Crynodeb o'r Argymhellion | Sut mae'r argymhelliad wedi'i ystyried? |
|---|---|---|
| | Dylai'r holl ddatblygiadau preswyl newydd alluogi ac annog cerdded a beicio ac yn ddelfrydol byddant yn darparu mynediad cerdded a beicio diogel a chyfleus i ysgolion cynradd ac uwchradd. | Mae Polisi PC2 yn gofyn ym meini prawf d. bod datblygiadau newydd yn 'gwneud y gorau o ddewisiadau teithio cynaliadwy drwy gael mynediad diogel a chyfleus ar droed, beic, cludiant cyhoeddus a cherbydau'. Mae Polisi PC5 yn adlewyrchu'r hierarchaeth cludiant yn PCC11, ac mae wedi'i addasu ymhellach gan yr Arolygydd, drwy geisio lleihau dibyniaeth ar y car drwy sicrhau dulliau cynaliadwy o deithio. Ar gyfer datblygiadau tai ar raddfa fwy, bydd ystyriaethau yn cael eu rhoi i Lwybrau Diogel i Ysgolion. Ni ystyrir bod angen i'r polisïau yn y Cynllun sôn yn benodol am ysgolion. |
| **3 Iechyd** | Dylai cynigion am ddatblygiadau preswyl newydd arddangos bod yno ddigon o le, mannau amwynder yn yr awyr agored a mynediad at fannau agored cymunedol yn ogystal ag ystod eang o gynefinoedd naturiol.<br>Dylai'r holl ddatblygiadau preswyl newydd alluogi ac annog cerdded a beicio ac yn ddelfrydol byddant yn darparu mynediad cerdded a beicio diogel a chyfleus i feddygfa gyfagos. | Mae Polisi EN1 wedi'i ddiwygio fel rhan o'r NMCau i nodi darpariaeth o fan agored i'r safon o 2.4ha i bob 1000 o'r boblogaeth. Bydd y Polisi yn cael ei gefnogi gan y CCA. Dylid darllen y polisi ar y cyd ag Isadeiledd Gwyrdd EN2. Mae Polisïau EN6 ac EN7 hefyd yn ceisio cyflwyno gwelliant bioamrywiaeth neu fudd net.<br>Byddai Polisïau PC2, PC4, PC5 a PC6 i gyd yn gweithio tuag at yr amcan o hygyrchedd ar droed neu ar feic. Fodd bynnag, mae lleoliad daearyddol cyfleusterau iechyd ar draws y Sir yn golygu na all yr holl ddatblygiadau preswyl fod o fewn pellter cerdded neu feicio i feddygfa. |
| **5 Mynediad** | Mae rhai safleoedd a ddyrannwyd ar gyfer datblygiad yn agos at, neu wrth ymyl, y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Ar rai safleoedd, mae'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn rhedeg trwy berimedr y safle. Mewn achosion o'r fath, dylai cynigion datblygu arddangos nad yw capasiti, gweithrediad ac ansawdd yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus wedi lleihau yn ystod y gwaith adeiladu neu ar gamau gweithredu'r datblygiad arfaethedig. | Mae Polisïau PC2, PC5, PC6 ac EN2 yn cydweithio o ran ceisio sicrhau ymgorfforiadau isadeiledd gwyrdd lle bo'n briodol, a chysylltiadau i gerddwyr a gall hyn gynnwys yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus presennol. Lle ystyrir bod hyn yn broblem yng ngosodiad a dyluniad dilynol dyraniad tai, mae wedi'i gyfeirio ato yn y canllawiau dylunio cryno e.e. HN1.7. |
| **6 Cymunedau Cryf a Chydlynol** | Dylai cynigion am ddatblygiadau preswyl newydd arddangos y byddai preswylwyr newydd yn cael mynediad priodol at gyfleusterau cymunedol. Dylai'r datblygiad ddarparu lefelau priodol o fannau amwynder yn yr awyr agored a mannau cymunedol sy'n hwyluso rhyngweithiadau a chymdeithasu rhwng aelodau o'r gymuned. | Mae dyraniadau'r Cynllun wedi'u lleoli mewn aneddiadau cynaliadwy sydd â darpariaeth briodol o gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol. Bydd cynigion hap-safleoedd dilynol yn cael eu hasesu yng nghyd-destun Polisi STR2 sy'n nodi'r math a'r raddfa o ddatblygiad tai sy'n berthnasol i haenau gwahanol yn hierarchaeth yr aneddiadau.<br>Bydd Polisi PC3 yn sicrhau bod gofod priodol o amgylch anheddau a gofod amwynder preifat yn cael ei ddarparu tra bydd Polisi EN1 yn sicrhau man agored cymunedol i alluogi cydlyniant cymunedol. |
| **8 Cyflogaeth** | Dylai'r holl ddatblygiadau preswyl newydd alluogi ac annog cerdded a beicio ac yn ddelfrydol byddant yn darparu mynediad cerdded a beicio diogel a chyfleus i ardaloedd cyflogaeth allweddol. | Mae dyraniadau'r Cynllun wedi'u gwneud mewn lleoliadau cynaliadwy sydd wedi'u lleoli'n dda yn nhermau pa mor agos ydynt at gyflogaeth a bydd y cynigion Teithio Llesol sy'n cael eu dilyn gan y Cyngor yn ceisio hwyluso teithiau ar droed ac ar feic i'r gwaith. Fodd bynnag, byddai'n afresymol gofyn i bob annedd newydd yn y Sir ddarparu mynediad at ardaloedd cyflogaeth ar droed neu ar feic. |
| **9 Ansawdd bywyd mewn ardaloedd** | Lle mae datblygiadau newydd yn digwydd mewn lleoliadau gwledig dylid dangos y byddai gan ddefnyddwyr y safle fynediad da at y rhyngrwyd. | Er mai hyn yw'r canlyniad canmoladwy a dymunol ar gyfer cymunedau gwledig, nid yw'n amlwg sut all y CDLl yn unig ddylanwadu'n gadarnhaol ar hyn. Mae'r NMCau wedi cyflwyno polisi newydd mewn perthynas â |

| | | |
|---|---|---|
| **gwledig** | | thelathrebu, a byddai hyn yn gefnogol o ddatblygiad telathrebu sydd wedi'i osod a'i ddylunio'n briodol.  Fodd bynnag, nid yw'r cyllid ar gyfer band eang gwell mewn ardaloedd gwledig, a'i amseriad, yn fater o fewn cylch gwaith y Cynllun. |

| Amcan yr AEI | Crynodeb o'r Argymhellion | Sut mae'r argymhelliad wedi'i ystyried? |
|---|---|---|
| | | |
| **10 Bioamrywiaeth** | Mae llawer o'r safleoedd newydd a ddyrannwyd ar gyfer datblygiad yn safleoedd maes glas a allai o bosibl fod o werth bioamrywiaeth uchel neu fod yn cefnogi rhywogaethau a chynefinoedd a warchodir a rhai sy'n derbyn blaenoriaeth. Dylid cynnal arolygon ecolegol priodol cyn dechrau'r datblygiad a, lle bo'n briodol, dylid cymryd mesurau priodol i sicrhau nad yw rhywogaethau a warchodir yn cael eu heffeithio arnynt yn ddifrifol.<br>Mewn lleoliadau sydd eisoes yn cynnwys isadeiledd gwyrdd ac elfennau bywyd gwyllt, fel gwrychoedd, coed natur neu byllau bach, yn cynnwys y rhai sy'n darlunio perimedrau'r safle, dylid cadw'r rhain a'u hamddiffyn rhag effeithiau negyddol a achoswyd gan ddatblygiadau newydd. Lle mae angen symud coed, gwrychoedd neu gynefinoedd eraill er mwyn parhau â datblygiad dylid disodli'r rhain â nodweddion bywyd gwyllt tebyg o nifer, ansawdd a chyfansoddiad tebyg gerllaw. Nid yn unig yw hyn er mwyn ceisio sicrhau bod gwerth bioamrywiaeth y safle yn cael ei warchod, ac yn ddelfrydol, ei wella, ond mae er mwyn cadw cysylltedd y rhwydwaith ecolegol ehangach ac i atal cynefinoedd rhag cael eu torri i ffwrdd neu eu hynysu rhag y rhwydwaith. | Roedd gwaith paratoi'r Cynllun yn cynnwys Cofnod (Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru) yn ymgymryd ag ymarferiad mapio o'r holl gynefinoedd / rhywogaethau bioamrywiaeth hysbys yn erbyn safleoedd posibl. Nid oes unrhyw wrthwynebiad gan CNC ychwaith i ddyraniadau'r Cynllun. Mae'r mwyafrif o'r dyraniadau hyn wedi bod yn destun arolygon ecolegol. Mae Polisïau EN6 ac EN7 yn rhoi'r sail ar gyfer asesu cynigion datblygu dilynol a bydd yn ofynnol i geisiadau cynllunio gynnwys arolygon a strategaethau ecolegol. |
| **11 Tirlun / Treflun** | Lle mae safleoedd yn cynnwys elfennau isadeiledd gwyrdd eisoes, fel coed a gwrychoedd, sy'n gwneud cyfraniad ystyrlon i'r cymeriad lleol, argymhellwyd bod y rhain yn cael eu cadw cymaint â phosibl a'u cefnogi drwy ddarparu elfennau isadeiledd gwyrdd ychwanegol.<br>Dylai cynigion datblygu, pan maent wedi'u lleoli o fewn neu wrth ymyl cymunedau sydd eisoes yn bod, dangos eu bod yn parchu'r cymeriad lleol ac os yw'n briodol, eu bod yn mabwysiadu pensaernïaeth frodorol er mwyn cadw ac yn ddelfrydol gwella cymeriad y treflun neu'r tirlun lleol. | Mae Polisi EN2 yn ceisio amddiffyn, cynnal a gwella isadeiledd gwyrdd presennol yn ogystal â chreu isadeiledd gwyrdd newydd, fel rhan o gynigion datblygiad newydd. Mae Polisi EN7 yn darparu canllawiau penodol mewn perthynas â choed, coetiroedd a gwrychoedd.<br>Mae meini prawf a) Polisi PC2 yn ceisio sicrhau bod datblygiad newydd yn ystyried cymeriad a gwahanolrwydd lleol. |
| **12 Treftadaeth** | Mewn rhai achosion, mae lleoliadau safleoedd yn gymharol agos, fel o fewn 300m o Henebion Cofrestredig (e.e. Bryn y Cwm, mwnt cloddwaith mawr a gwrthglawdd sy'n bod yn rhannol) ac felly efallai ei bod yn briodol sicrhau bod arolygon archeolegol ar y safle yn cael eu cwblhau cyn i'r datblygiad ddechrau.<br>Mae'n bosibl y bydd angen arolygon archeolegol i helpu i sicrhau nad yw archeoleg sydd islaw lefel y ddaear yn cael ei niweidio o ganlyniad i'r Datblygiad arfaethedig.<br>Byddai dyluniad sy'n cyd-fynd â'r treflun lleol presennol a'r ymdeimlad lleol o le, yn ychwanegol at ymgorffori isadeiledd gwyrdd i Ddatblygiad, yn debygol o helpu i sicrhau bod effeithiau datblygiad newydd ar safleoedd maes glas neu dir llwyd ar y lleoliad yn ogystal â'r golygfeydd o ac ar leoliad asedau treftadaeth, fel Adeiladau Rhestredig, yn cael eu hosgoi neu eu lleihau. | Mae Polisi EN8 yn ceisio gwarchod Henebion Cofrestredig a'u lleoliadau. Gall dyraniad HN1.4 Northop Road, Y Fflint osgoi niwed i leoliad yr Henebion Cofrestredig drwy osod datblygiad adeiladu yn ofalus yn y rhan hwn o'r safle.<br>Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys wedi bod yn rhan drwy gydol gwaith paratoi'r cynllun a gellir mynd i'r afael â'r nodweddion archeolegol fel rhan o ffurfio cynigion datblygiad manwl ac ar y cam rheoli datblygiad. |

| Amcan yr AEI | Crynodeb o'r Argymhellion | Sut mae'r argymhelliad wedi'i ystyried? |
|---|---|---|
| **13 Adnoddau Dŵr** | Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i effeithiau posibl y Datblygiad a gynigwyd ar ansawdd y corff dŵr cyfagos. Dylid atal llwch neu unrhyw halogyddion eraill rhag mynd i mewn i'r corff dŵr trwy ddŵr wyneb ffo ac ni ddylai'r datblygiad newid y tabl dŵr lleol. | Mae Polisi EN15 yn ceisio diogelu amgylchedd y dŵr rhag niwed ac mae wedi'i ychwanegu ato, er mwyn cynnwys y problemau o ran ffosffadau. Mae Polisi EN18 hefyd yn ceisio atal niwed o ganlyniad i lygredd o ddatblygiad newydd. |
| **14 Perygl Llifogydd** | Ymgymryd ag Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ar gyfer y Safle ac ystyried yr angen am Systemau Draenio Cynaliadwy yn y strategaeth draenio.<br>Mae'r darn o dir sydd mewn risg Uchel o lifogydd dŵr wyneb yn gymharol fach ac yng nghornel de-ddwyrain y Safle. Ystyrir ei bod yn debygol y byddai modd osgoi'r ardal hon o'r safle gyda gosodiad gofalus y Datblygiad arfaethedig.<br>Lle mae'r isadeiledd gwyrdd o fewn neu'n darlunio safleoedd, dylid ei gadw. Dylai isadeiledd gwyrdd newydd a ddarperir o fewn y datblygiadau gael ei osod mewn ffordd sy'n gwneud y mwyaf o'i bosibilrwydd i liniaru'r perygl o lifogydd (lle mae'r perygl o lifogydd yn bresennol). | Cynhaliwyd Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd Strategol i gefnogi'r Cynllun ac nid oes gan CNC unrhyw wrthwynebiadau. Mae Polisi EN15 yn nodi'r canllawiau mewn perthynas â'r perygl o lifogydd. Ar y cam rheoli datblygu bydd angen Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd manwl pellach i gefnogi'r cynigion datblygu. Mae Polisi EN2 yn darparu canllawiau mewn perthynas ag isadeiledd gwyrdd. |
| **15 Ansawdd aer a nwyon tŷ gwydr** | Dylai'r holl ddatblygiadau preswyl newydd alluogi ac annog cerdded a beicio ac yn ddelfrydol byddant yn darparu mynediad cerdded a beicio diogel a chyfleus i wasanaethau, amwynderau a chyfleusterau allweddol.<br>Dylid annog cerbydau allyriadau isel yn ystod y gwaith adeiladu ac wrth ddefnyddio'r safle.<br>Gellir annog datblygiad preswyl newydd i ddarparu isadeiledd ar gyfer gwefru ceir trydan. | Bydd Polisïau PC2, PC4, PC5 a PC6 i gyd yn gweithio gyda'i gilydd i annog cerdded a beicio fel rhan o hygyrchedd safleoedd tai i gyfleusterau a gwasanaethau lleol.<br>Nid yw'n amlwg sut all y Cynllun amodi pa gerbydau a pheiriannau y dylid eu defnyddio yn ystod y gwaith adeiladu.<br>Mae PCC11 yn egluro bod Cymru'r Dyfodol yn amlinellu gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu pwyntiau gwefru ceir trydan ar gyfer datblygiad amhreswyl (dylai 10% o ofodau parcio gael pwyntiau gwefru trydan – fel sy'n cael ei ymgorffori ym Mholisi PC5). Fodd bynnag, nid oes polisi cenedlaethol yn PCC11 nac yng Nghymru'r Dyfodol sy'n gofyn bod gan dai newydd bwyntiau gwefru fel y safon. Byddai cynnwys hyn yn y polisi yn mynd y tu hwnt i bolisi cenedlaethol ac yn cyflwyno pryderon gan adeiladwyr tai o ran hyfywedd. |
| **16 Ynni effeithlon ac adnewyddadwy** | Efallai y byddai'n briodol i ddefnyddio Brîff Datblygu ar gyfer rhai o'r dyraniadau safle mwy.<br>Mae Datganiad Dylunio a Mynediad yn ofyniad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y rhan fwyaf o geisiadau cynllunio yng Nghymru. Byddai hyn yn cynnwys eglurhad o ddyluniad cynaliadwy sy'n gymesur â graddfa a math y datblygiad arfaethedig. Dylai hwn gynnwys defnydd o ynni tebygol y Datblygiad arfaethedig yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu a nodi a cheisio cyfleoedd ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni a defnyddio technolegau carbon isel a di-garbon. | Mae'r NMCau wedi cyflwyno ymrwymiad ym Mholisi STR3B i baratoi CCA / brîff datblygu mewn perthynas â Safle Strategol Warren Hall. Mae STR3A Porth y Gogledd yn parhau yn seiliedig ar y fframwaith caniatâd cynllunio presennol. O'r 11 o safleoedd tai a ddyrannwyd, mae 3 yn cael eu hadeiladu, mae gan 3 geisiadau cynllunio cyfredol ac mae gan y mwyafrif ohonynt ddatblygwr a ffefrir. O ystyried fod gan bob safle ym mholisi HN1 ganllawiau cryno, ni ystyrir ei fod yn angenrheidiol bod gan bob safle brîff datblygu. |
| **17 Adnoddau naturiol** | Hyrwyddo defnyddio deunyddiau a ailgylchwyd / ailddefnyddiwyd er mwyn lleihau'r galw ar ddeunyddiau crai yn ystod y gwaith adeiladu a darparu cyfleusterau didoli gwastraff ar y safle lle bo'n bosibl. Hyrwyddo rheoli pridd yn gynaliadwy yn ystod gwaith adeiladu ac ail-ddefnyddio pridd sydd wedi'i gloddio lle bo hynny'n ymarferol. | Mae Polisi STR15 yn darparu canllawiau strategol mewn perthynas â rheoli gwastraff ac mae'n adlewyrchu'r hierarchaeth gwastraff yn PCC11. Mae Polisi STR16 hefyd yn cyfeirio at wneud y mwyaf o ddefnyddio agregau eilaidd ac sydd wedi'u hailgylchu. Mae Polisi EN19 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad newydd ddangos sut mae gwastraff yn cael ei reoli'n gynaliadwy. |

## Effeithiau Cyfunol

2.3.37 Elfen bwysig o'r AEI yw ystyried yr effeithiau cyfunol.

2.3.38 Mae **effeithiau cyfunol** yn codi, er enghraifft, lle mae effeithiau ansylweddol gan sawl cynnig yn creu effaith sylweddol gyda'i gilydd, neu lle mae sawl effaith unigol y cynnig yn cael effaith gyfunol: ac

2.3.39 Mae **effeithiau synergaidd** yn rhyngweithio i greu cyfanswm effaith sy'n fwy na swm yr effeithiau unigol, fel bod natur yr effaith derfynol yn wahanol i natur yr effeithiau unigol.

2.3.40 Mae Tabl 2-8 yn ceisio rhagfynegi a gwerthuso effeithiau cyfunol a synergaidd tebygol yr holl bolisïau a dyraniadau safle yn y CDLl ar y cyd.

*Tabl 2-8: Effeithiau cyfunol a synergaidd y CDLl ar y cyd*

| Amcan yr AEI | Sgôr Gyffredinol | Disgrifiad o'r effeithiau |
|---|---|---|
| 1 Trosedd | + | Disgwylir i ddatblygiad a gynigiwyd yn y CDLl i'w Archwilio gan y Cyhoedd wneud cyfraniad mawr tuag at leihau cyfraddau digartrefedd, diweithdra, tlodi, amddifadedd ac anghydraddoldeb. Wrth wneud hynny, mae'n debygol y byddai'n gwneud cyfraniad ystyrlon i fynd i'r afael ar droseddau yn Sir y Fflint. Mae Polisïau yn y CDLl yn ceisio sicrhau bod datblygiadau newydd hefyd wedi'u dylunio mewn ffordd sy'n lleihau'r perygl o drosedd, fel trwy ddarparu cyfraddau uchel o wyliadwriaeth naturiol.<br>Mae llawer o'r datblygiad arfaethedig wedi'i lleoli ar dir glas mewn ardaloedd sydd â chyfraddau troseddau gymharol uchel. Gall datblygiad newydd yn y lleoliadau hyn o bosibl gael yr effaith fwyaf o ran mynd i'r afael ar gyfraddau troseddau, ond ar yr un pryd gallant gyflwyno targedau troseddau newydd i'r ardal. |
| 2 Addysg | ++ | Byddai disgwyl i'r CDLl leoli'r rhan fwyaf o breswylwyr newydd mewn lleoliadau lle mae ganddynt fynediad ardderchog at gyfleoedd addysg. Byddai darparu tir cyflogaeth newydd hefyd yn helpu i wella'r cyfleoedd ar gyfer dysgu sgiliau yn seiliedig ar gyflogaeth. Mewn rhai lleoliadau mae'n debygol y bydd capasiti cyfleusterau addysg yn cael ei ehangu. Mae hyn wedi'i demprу i ryw raddau gan y perygl y bydd capasiti rhai ysgolion yn cael ei roi o dan bwysau ychwanegol oherwydd datblygiad newydd, er yn unol â pholisïau'r CDLl disgwylir y bydd datblygiad preswyl newydd ond yn digwydd pan ddangosir bod capasiti digonol o fewn yr ysgol leol. |
| 3 Iechyd | ++ | Disgwylir i bolisïau yn y CDLl ddarparu cyfraniad mawr tuag at wella iechyd corfforol a meddyliol a lles pobl leol. Byddai darpariaeth sylweddol o dai a swyddi yn lleihau cyfraddau lleol o ddigartrefedd, diweithdra, tlodi, amddifadedd ac anghydraddoldeb gyda buddion dilynol i iechyd corfforol a meddyliol unigolion. Oherwydd lleoliad y dyraniadau safle byddai disgwyl i breswylwyr newydd a phresennol gael mynediad da at gyfleusterau iechyd, yn cynnwys ysbytai a meddygfeydd, yn ogystal â chyfleoedd ymarfer corff, mannau cymdeithasol ac ystod eang o gynefinoedd rhannol-naturiol. |
| 4 Tai | ++ | Disgwylir i'r CDLl helpu i sicrhau y darperir ar gyfer anghenion amrywiol ac sy'n tyfu cymuned amrywiol Sir y Fflint dros gyfnod y Cynllun. |
| 5 Mynediad | ++ | Byddai polisïau rheoli datblygu a strategol yn ei gwneud yn ofynnol i gynigion ddangos bod gan ddefnyddwyr safle y datblygiad newydd hygyrchedd da drwy gerdded, beicio a chludiant cyhoeddus. Mae'r dyraniadau safle arfaethedig wedi'u lleoli mewn lleoliadau sydd, gan amlaf, o fewn pellter byr o wasanaethau ac amwynderau allweddol yn cynnwys adeiladau cymunedol, cyfleoedd hamdden, ardaloedd cyflogaeth ac ardaloedd manwerthu. |
| 6 Cymunedau | ++ | Byddai polisïau rheoli datblygu a strategol yn debygol o helpu i sicrhau bod cydlyniant cymunedau ar draws Sir y Fflint yn cael ei ddiogelu a'i wella. Mae datblygiad newydd wedi'i gyfeirio'n bennaf at ardaloedd o ffurf adeiladu bresennol debyg, gyda phreswylwyr newydd yn debygol o fod yn byw ymysg cymuned bresennol a defnydd cyflogaeth wedi'i gyfeirio at ardaloedd busnes neu ddiwydiannol. Mae capasiti ac ansawdd cyfleusterau cymunedol presennol wedi'u diogelu tra bod tri chyfleuster cymunedol newydd wedi'u dyrannu. |
| 7 Economi | ++ | Mae'r CDLl yn nodi polisïau rheoli datblygu a strategol y disgwylir iddynt helpu i wella cynaliadwyedd ac amrywiaeth economi Sir y Fflint drwy ddarparu cefnogaeth ac anogaeth ar gyfer mathau penodol o fusnesau sy'n allweddol ar gyfer twf economaidd lleol. Byddai safleoedd cyflogaeth newydd sy'n cael eu dyrannu ar gyfer defnyddiau penodol, fel defnydd swyddfa B2, yn rhoi hwb i'r economi leol. Mae eu lleoliad yn erbyn lleoliad dyraniadau preswyl newydd yn helpu I sicrhau bod gan fusnesau a mannau manwerthu fynediad da at gwsmeriaid a gweithwyr. Mae'n debygol y bydd gwelliannau i gyrhaeddiad addysgol lleol yn |

| Amcan yr AEI | Sgôr gyffredinol | Disgrifiad o'r effeithiau |
|---|---|---|
| | | ogystal ag isadeiledd digidol Sir y Fflint hefyd o fudd i'r economi leol. |
| 8 Cyflogaeth | ++ | Mae'r CDLl yn dyrannu amrywiaeth o safleoedd cyflogaeth, ac hefyd yn cefnogi ac yn annog datblygiad cyflogaeth newydd mewn lleoliadau busnes a diwydiannol presennol ac felly bydd disgwyl i sicrhau bod cyfraddau lleol o ddiweithdra yn lleihau tra bod pobl yn cael gwell mynediad at ystod ehangach o swyddi o ansawdd uchel. Byddai gwell cyrhaeddiad addysgol hefyd yn gwella cyflogadwyedd trigolion Sir y Fflint. |
| 9 Bywyd Gwledig | ++ | Byddai disgwyl i ddosbarthiad datblygiad cyflogaeth a phreswyl newydd helpu i wella bywiogrwydd cymunedau gwledig ar draws Sir y Fflint heb fynd dros gapasiti'r lleoedd hyn i ddarparu ar gyfer datblygiad newydd. |
| 10 Bioamrywiaeth | - | Mae polisïau rheoli datblygu a strategol yn ceisio sicrhau bod bioamrywiaeth yn Sir y Fflint yn cael ei warchod a'i wella, yn cynnwys y bywyd gwyllt a geir ar draws y sir a'i gysylltedd ecolegol cyffredinol. Mewn llawer o achosion disgwylir y bydd datblygiad newydd yn osgoi effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth o ganlyniad i'r polisïau hyn. Lle mae datblygiad wedi'i gynnig ar safleoedd tir llwyd mae posibilrwydd y bydd datblygiad yn creu enillion net lleol mewn bioamrywiaeth. Fodd bynnag, byddai'r mwyafrif o ddyraniadau safle newydd yn arwain at golli cryn dipyn o dir glas ac yn debygol o arwain at golli cynefinoedd sensitif neu gynefinoedd cynhaliol mewn rhai lleoliadau. Mewn rhai ardaloedd o Sir y Fflint mae'n debygol y bydd cysylltedd ecolegol wedi'i leihau ac mae perygl y bydd cynefinoedd yn cael eu torri i ffwrdd a'u hynysu oddi wrth y rhwydwaith. |
| 11 Tirlun | - | Mae polisïau rheoli datblygu a strategol yn ceisio sicrhau bod datblygiad newydd yn Sir y Fflint o ansawdd uchel a gyda dyluniad sy'n ddeniadol yn weledol sy'n parchu'r cymeriad lleol ac sy'n cyd-fynd â'r ffurf leol. Mewn rhai achosion, mae datblygiad newydd o bosibl yn gyfle i wella'r cymeriad lleol. Fodd bynnag, byddai'r rhan fwyaf o ddatblygiad newydd ar safleoedd tir glas sy'n arwain at golli mannau agored ac elfennau isadeiledd gwyrdd sy'n chwarae rhan bwysig mewn diffinio'r cymeriad lleol. Er bydd y datblygiad wedi'i ddylunio i ansawdd uchel, ni ellir diystyru addasiadau ac effeithiau negyddol posibl ar gymeriad y tirlun mewn aneddiadau gwledig neu sydd ar gyrion aneddiadau ar draws Sir y Fflint. Mae dyraniadau safle yn aml wrth ymyl, neu o fewn, ardaloedd o ffurf adeiladu debyg a gall hyn helpu i osgoi neu liniaru effeithiau negyddol mewn llawer o achosion. |
| 12 Treftadaeth | - | Mae polisïau rheoli datblygu a strategol yn y CDLl wedi'u dylunio i sicrhau bod treftadaeth ddiwydiannol cyfoethog Sir y Fflint yn cael ei gadw a'i wella a bod datblygiad newydd yn osgoi neu'n lliniaru effeithiau negyddol cymaint â phosibl. Cyflawnir hyn yn bennaf trwy ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad gael ei ddylunio a'i osod mewn ffordd sy'n parchu'r lleoliad lleol. Fodd bynnag, yn unol ag Amcan 11 yr AEI, ni ellir diystyru effeithiau negyddol yn bennaf oherwydd y golled o fannau agored a thir glas sy'n newid golygfeydd o ac o asedau treftadaeth fel Adeiladau Rhestredig. |
| 13 Dŵr | - | Mae polisïau rheoli datblygu a strategol yn y CDLl yn ceisio sicrhau bod datblygiad newydd yn Sir y Fflint yn gymharol effeithlon o ran dŵr wrth hefyd osgoi effeithiau negyddol ar gyrff dŵr naturiol. Mae'n debygol y bydd effeithlonrwydd cyffredinol rheoli dŵr yn Sir y Fflint yn gwella dros amser. Fodd bynnag, o ystyried graddfa'r datblygiad sy'n cael ei ystyried mae'n debygol y bydd cynnydd net yng nghyfanswm y defnydd dŵr yn Sir y Fflint. Mae safleoedd sydd wedi'u dyrannu ar gyfer datblygiad newydd yn aml mewn lleoliadau gwledig o fewn 100m o gyrff dŵr naturiol neu'n agos at y morlin. Byddai datblygiad yn y lleoliadau hyn yn gwneud cyflawni targedau gwella ansawdd dŵr yn anoddach oherwydd y risg gynyddol o halogiad neu lygredd o ddŵr wyneb o ganlyniad i dir glas (sy'n darparu gwasanaethau hidlo dŵr naturiol) yn cael ei disodli gan lawr caled. |
| 14 Llifogydd | - | Mae polisïau yn y CDLl yn ceisio sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad newydd yn Sir y Fflint yn cynyddu'r risg o lifogydd a wynebwyd gan bobl ac adeiladau lleol. Fodd bynnag, mae ardaloedd perygl llifogydd helaeth yn y sir ac nid yw wedi bod yn bosibl dyrannu safleoedd oddi wrth dir sydd mewn perygl o lifogydd, yn enwedig safleoedd cyflogaeth y mae llawer ohonynt ar dir sydd mewn perygl uchel o lifogydd (er bod defnydd cyflogaeth yn cydweddu â'r risg uwch o lifogydd na defnydd preswyl). Mae'r rhan fwyaf o'r safleoedd sydd wedi'u dyrannu ar hyn o bryd yn dir glas a gall disodli pridd hydraidd gyda llawr caled i ryw raddau newid nodweddion llif dros y tir dŵr wyneb. Byddai hyn i ryw raddau yn cael ei osgoi neu ei liniaru gan bolisïau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynigion ymgorffori systemau draenio cynaliadwy i ddatblygiad yn ogystal â diogelu mannau gwyrdd mewn rhai ardaloedd, ond ni ellir diystyru effaith negyddol fechan gyffredinol ar yr Amcan AEI hwn. |
| 15 Ansawdd aer a nwyon tŷ gwydr | - | Mae'r CDLl yn nodi polisïau amrywiol a fyddai'n debygol o annog cyfraddau uwch yn y nifer o bobl sy'n cerdded, beicio ac yn defnyddio cludiant cyhoeddus. Mae hefyd yn annog adeiladau sy'n fwy effeithlon o ran ynni, mynediad gwella at isadeiledd gwefru cerbydau |

| | | |
|---|---|---|
| 16 Ynni | - | trydan ac yn cynyddu faint o ynni adnewyddadwy sy'n cael ei greu. Mae'r CDLl hefyd yn dyrannu dau safle newydd ar gyfer datblygiadau ffermydd solar. Yn ychwanegol, mae'r rhan fwyaf o safleoedd newydd sydd wedi'u dyrannu ar gyfer datblygiad preswyl neu gyflogaeth yn hwyluso symudiadau gymharol effeithlon ar gyfer pobl leol gyda dim ond siwrneiau byr eu hangen i gael mynediad at wasanaethau, amwynderau ac ardaloedd cyflogaeth allweddol. Fodd bynnag, disgwylir i raddfa'r datblygiad arfaethedig yn y CDLl, yn cynnwys y twf sylweddol mewn datblygiad tai a chyflogaeth, arwain at gynnydd net mewn defnydd ynni a thagfeydd yn Sir y Fflint sy'n arwain at effaith negyddol fechan gyffredinol ar ansawdd aer ac allyriadau carbon. |

| Amcan yr AEI | Sgôr gyffredinol | Disgrifiad o'r effeithiau |
|---|---|---|
| | | |
| 17 Adnoddau naturiol | - | Byddai disgwyl i raddfa a dosbarthiad datblygiad sy'n cael ei wneud drwy'r CDLl arwain at golled net sylweddol, parhaol ac anghildroadwy o bridd ar draws Sir y Fflint. Byddai hyn yn cael ei liniaru i ryw raddau gan bolisïau sy'n ceisio sicrhau bod datblygiad yn gwneud defnydd gymharol effeithlon o dir; bod ardaloedd mwynau gwerthfawr yn cael eu diogelu a bod caeau a mannau agored yn cael eu diogelu hefyd yn unol â pholisi cenedlaethol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r pridd amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas gael ei ddiogelu rhag datblygiad. Mae'n debygol y bydd cynnydd mewn adeiladu lleol ac y bydd nifer yr aelwydydd a busnesau yn cynyddu cyfraddau lleol o'r defnydd o ddefnyddiau a faint o wastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Disgwylir nifer o bolisïau rheoli datblygu i helpu i wella effeithlonrwydd system rheoli gwastraff Sir y Fflint a gall annog cyfraddau uwch o leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu, ond mae'n annhebygol o atal cynnydd net cyffredinol llwyr yn y defnydd o ddefnyddiau a chynhyrchu gwastraff. |
| 18 Y Gymraeg | + | Un o Amcanion allweddol y CDLl yw amddiffyn a chefnogi'r Gymraeg. Mae hyn wedi'i drosglwyddo i Bolisi STR4 ar Egwyddorion Datblygu, Dylunio a Phennu Lleoedd Cynaliadwy h.y., mae'n rhaid i ddatblygiad newydd sicrhau ei fod yn cefnogi ac yn cynnal lles hirdymor y Gymraeg. Byddai safleoedd newydd sydd wedi'u dyrannu ar gyfer datblygiad yn y CDLl, gan amlaf yn darparu mynediad i breswylwyr newydd at gyfleoedd dysgu Cymraeg mewn ysgolion. Mae rhai safleoedd yn agos at ysgolion Cymraeg yn unig. Mae'r datblygiad newydd wedi'i leoli o fewn ystod o gyfraddau gwahanol o rai sy'n siarad Cymraeg. Lle mae'r gyfradd sy'n siarad Cymraeg yn gymharol uchel gallai fod perygl y bydd preswylwyr newydd yn gwanhau'r cyfraddau hyn neu, fel arall, gall fod yn fodd effeithiol o leoli nifer uchel o breswylwyr newydd o fewn cymunedau sydd â chyfraddau siarad Cymraeg uchel ac felly'n annog nifer fwy byth i fanteisio ar ddysgu'r iaith. Ystyrir yn gyffredinol na fyddai unrhyw gymuned neu aneddiad unigol yn destun datblygiad ar raddfa a allai gwanhau cyfraddau'r nifer sy'n siarad Cymraeg yn weladwy. |

## Crynodeb o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

2.3.41 Ar wahân i'r AEI, paratowyd ARhC o'r CDLl i benderfynu a yw unrhyw bolisïau neu ddyraniadau safle yn y CDLl, p'un a ydynt ar eu pen eu hunain neu pan ystyriwyd hwy ar y cyd, yn gallu o bosibl arwain at effaith arwyddocaol debygol ar safle Ewropeaidd. Bu i'r Atodiad i'r ARhC[11] hefyd ystyried Newidiadau y Materion sy'n Codi. Cafodd yr holl NMCau eraill nad ydynt yn ymwneud ag ansawdd dŵr o ran y lefelau Ffosffad yn yr Afon Dyfrdwy eu diystyru.

2.3.42 Mewn perthynas ag effeithiau posibl rhyddhau dŵr gwastraff yn Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Dyfrdwy a Llyn Bala, yn dilyn Asesiad Priodol, ac ar ôl ystyried cynigion lliniaru ychwanegol a ddarperir gan bolisi EN15, ac sy'n cael ei arddangos o fewn y SLIFfDAD, gellir casglu na fydd unrhyw un o'r polisïau yn cael effaith andwyol ar uniondeb yr ACA. Gellir dibynnu ar Bolisi EN15, fel y'i diwygiwyd, a darparu mesurau lliniaru trwy'r SLIFfDAD, i osgoi effeithiau andwyol i uniondeb y safle o ganlyniad i ryddhau dŵr gwastraff.

## Asesiadau Integredig

### Cydraddoldeb

2.3.43 Yn ystod asesu'r opsiynau strategol, y polisïau a'r dyraniadau safle mae ystyried yr effeithiau ar gydraddoldeb wedi'i gynnwys mewn ystod o Amcanion yr AEI, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag iechyd, cymunedau a diogelwch. Mae'r asesiadau wedi nodi, lle bo'n briodol, effeithiau posibl ar bobl sydd â nodweddion sydd wedi'u gwarchod dan y Ddeddf Cydraddoldeb yng nghymuned Sir y Fflint.

[11] Ar gael yn: https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/Examination-Library-Documents/FCC/FCC032-Habitat-Regulations-Assessment-HRA-Addendum.pdf [Cyrchwyd: 06/01/23]

2.3.44 Byddai disgwyl i bolisïau a dyraniadau safle yn y CDLl wneud cyfraniad ystyrlon at wella cydraddoldeb cyfleoedd i bobl yn Sir y Fflint, gyda'r rhai sydd â'r angen mwyaf yn debygol o gael mynediad gwell at ystod ehangach o swyddi o ansawdd uchel yn ogystal â gwasanaethau ac amwynderau allweddol. Mae'r CDLl yn cyfeirio datblygiad preswyl newydd at gymunedau presennol mewn ffordd a all helpu i feithrin cymunedau mwy amrywiol ac integredig heb fynd dros capasiti'r cymunedau hyn ar gyfer darparu ar gyfer datblygiad newydd ac, wrth wneud hynny, byddai hyn yn helpu i feithrin perthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn ogystal â'r rhai nad ydynt yn rhannu nodweddion gwarchodedig. Disgwylir i welliannau i lwybrau cerdded a beicio yn ogystal â chludiant cyhoeddus fod o fudd i'r rhai â nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad oes ganddynt nodweddion gwarchodedig.

### Iechyd

2.3.45 Mae iechyd wedi cael ei ystyried drwy gydol proses yr AEI, ac mae'r effaith ar iechyd ar gyfer y datblygiad a'r polisïau arfaethedig wedi'u hasesu yn bennaf trwy Amcan 3 yr AEI ond yn cysylltu ag ystod o Amcanion wrth ystyried yr effaith ar ansawdd aer, cymunedau a throsedd. Mae'r asesiadau wedi nodi, lle bo'n briodol, effeithiau posibl ar iechyd pobl, gyda phwyslais penodol ar iechyd corfforol a lles meddyliol, ond hefyd yn ystyried anghydraddoldebau iechyd.

2.3.46 Byddai'r cynigion a nodwyd yn y CDLl yn arwain at welliannau yn iechyd poblogaeth Sir y Fflint, gan annog teithio llesol a hyrwyddo lles meddyliol. Mae'r CDLl yn cyfeirio datblygiad newydd at gymunedau presennol i helpu i annog cerdded a beicio i wasanaethau, yn cynnwys gwasanaethau Meddyg Teulu. Mae bod yn agos at wasanaethau yn helpu i wella ansawdd aer lleol hefyd, a all fod yn niweidiol i iechyd. Mae'r CDLl yn ceisio gwella'r ymdeimlad o gymuned mewn aneddiadau, a all hwyluso perthnasau cadarnhaol.

2.3.47 Paratowyd Gweithdy Cyfranogol Cyflym Asesu'r Effaith ar Iechyd ar Adroddiad Terfynol CDLl Sir y Fflint ym mis Rhagfyr 2019[12]. Mae'r ddogfen hon yn adrodd ar ganlyniad ac argymhellion gweithdy cyfranogol cyflym asesu'r effaith ar iechyd ar y CDLl a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2019 gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd y gweithdy cyfranogol cyflym yn rhan o'r broses ymgynghori cyffredinol i ystyried a chynnwys barn gweithwyr proffesiynol ar effaith bosibl y cynllun ar Iechyd a Lles poblogaeth Sir y Fflint. Bu i'r gweithdy AEaI alluogi i'r rhai a oedd yn bresennol gael mewnwelediad pellach a gwell dealltwriaeth o'r CDLl a phroses yr AEaI sydd wedi cefnogi datblygiad y CDLl.

## Archwiliad

2.3.48 Cyflwynwyd y Cynllun Lleol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Archwiliad annibynnol ar 30 Hydref 2020.

2.3.49 Bu i'r Arolygydd ysgrifennu at y Cyngor ym mis Tachwedd 2020 gyda 31 o gwestiynau yn gofyn am wybodaeth allweddol ar ystod o faterion cyn dechrau'r Sesiynau Gwrandawiad. Cyhoeddodd y Cyngor ymateb ym mis Tachwedd 2020[13].

2.3.50 Yna bu i'r Arolygydd gyhoeddi cyfres o Amserlenni ar gyfer y Sesiynau Gwrandawiad a oedd yn nodi pa 'Faterion' a fyddai'n cael eu trafod ym mha Sesiynau Gwrandawiad[14]. I ddechrau, roedd 20 o sesiynau gwrandawiad wedi'u rhaglennu rhwng 13 Ebrill a 20 Mai 2021. Trefnwyd y sesiynau gwrandawiad mewn trefn resymegol gan edrych ar baratoi'r CDLl, strategaeth ac yna ar faterion mwy manwl, sydd fwy neu lai yn yr un drefn â'r hyn a gyflwynwyd yn CDLl. Roedd y sesiynau

[12] Ar gael yn: https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/2019-12-20-Flintshire-HIA.pdf [Cyrchwyd: 06/01/23]

[13] Ar gael yn: https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/Examination-Library-Documents/Flintshire-LDP-EiP-Inspectors-Prelim-Questions-and-Responses.pdf [Cyrchwyd: 06/01/23]

[14] Ar gael yn: https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/Examination-Library-Documents/INSP/INSP005-Draft-Hearing-Session-Timetable.pdf [Cyrchwyd: 06/01/23]

allweddol mewn perthynas â thwf strategol a'r safleoedd strategol, lleoliad y datblygiad, safleoedd tai a rhwystrau glas a'r rhain oedd y sesiynau gyda'r nifer uchaf o fynychwyr. Y ddau brif fater a oedd yn codi o'r sesiynau gwrandawiad a drefnwyd oedd ffosffadau a Safle Strategol Warren Hall.

2.3.51 Mewn perthynas â Warren Hall, bu i'r Arolygydd drefnu sesiwn pellach i drafod y materion a godwyd gan Airbus mewn perthynas ag uchder y datblygiad a diogelu'r llwybr hedfan i Faes Awyr Penarlâg a hefyd mewn perthynas â chwestiynau'r Arolygydd o ran y safle strategol, yn enwedig yr elfen dai o'r dyraniad. Bu i'r Arolygydd ysgrifennu at y Cyngor ar ddiwedd y sesiynau gwrandawiad a drefnwyd a nodi ei phryderon mewn perthynas â safle Warren Hall[15]. Bu i'r Cyngor baratoi tystiolaeth bellach o ran y materion a godwyd a chynhaliwyd y sesiwn gwrandawiad ychwanegol ar 21 Medi 2021.

2.3.52 O ran ffosffadau, daeth yr Arolygydd i'r casgliad yn y Sesiwn Gwrandawiad ar gyfer Mater 1 y byddai angen ail-ymweld â'r broblem yn ymwneud â ffosffadau yn nes ymlaen yn y broses Archwilio. Yn dilyn hyn, fe wnaeth Sir y Fflint a Wrecsam, a'u hymgynghorwyr Arcadis a DTA, baratoi Strategaeth Lleihau Ffosfforws yn Nalgylch Afon Dyfrdwy (SLIFfDAD)[16]. Trefnwyd sesiwn gwrandawiad pellach ar gyfer 23 Tachwedd 2021 a oedd yn ystyried y mater o ran ffosffadau a hefyd Newidiadau Drafft y Materion sy'n Codi. Ysgrifennodd yr Arolygydd nifer o lythyrau at y Cyngor yn egluro ei bod yn fodlon â'r dull a ddefnyddiwyd gyda ffosffadau a gyda gallu'r CDLl i ddarparu'r ffigur gofyniad tai.

## Atodiad Newidiadau y Materion sy'n Codi yr AEI

2.3.53 Bu i'r Cyngor lunio rhestr ddrafft o Newidiadau y Materion sy'n Codi yn bennaf o ganlyniad i Bwyntiau Gweithredu a gododd yn sgil y Sesiynau Gwrandawiad Archwilio, ac y cytunwyd arnynt gyda'r Arolygydd ar ddiwedd pob sesiwn. Mae Newidiadau y Materion sy'n Codi hefyd yn cynnwys newidiadau eraill sy'n codi o i) ymatebion y Cyngor i sylwadau lle awgrymodd y Cyngor y dylid gwneud diwygiad i'r CDLl, ii) y Datganiad Tir Cyffredin y cytunwyd arno gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a iii) diwygiadau eraill y soniwyd amdanynt yn Natganiadau Gwrandawiad y Cyngor.

2.3.54 Roedd y rhan fwyaf o'r Newidiadau y Materion sy'n Codi yn ymwneud â mân newidiadau golygu nad ydynt yn effeithio ar ystyr neu weithredu polisi ac sy'n nodi newidiadau i'r CDLl i ystyried Polisi Cynllunio Cymru – Rhifyn 11 (PCC)[17].

2.3.55 Mae'r diwygiadau yn cynnwys newid i geiriad y polisi, testun eglurhaol a mapiau cynigion sy'n cael eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn dangos pa mor gadarn yw'r CDLl. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r effeithiau cyfunol a nodwyd o ganlyniad i'r NMCau.

## Adroddiad yr Arolygydd

*2.3.56* Mae casgliad cyffredinol Adroddiad yr Arolygydd yn nodi: "*Daethom i'r casgliad, gyda'r newidiadau rhwymol a argymhellir ac sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn fel y gwelir yn Atodiad A a B, bod y Cynllun Datblygu Lleol yn bodloni gofynion adran 64(5) o Ddeddf 2004 ac yn bodloni'r profion cadernid ym Mholisi Cynllunio Cymru. Wrth gyrraedd y casgliad hwn, rydym wedi ystyried y ffyrdd o weithio a nodwyd yn adran 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn fodlon y bydd y Cynllun Datblygu Lleol wedi'i addasu yn arwain y datblygiad a defnydd tir mewn ffordd sy'n cyfrannu at*

[15] Ar gael yn: https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/Examination-Library-Documents/INSP/INSP010-Post-Hearings-Letter.pdf [Cyrchwyd: 06/01/23]
[16] Ar gael yn: https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/Examination-Library-Documents/FCC/FCC031-Phosphate-Strategy.pdf [Cyrchwyd: 06/01/23]
[17] Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru [Cyrchwyd: 06/01/23]

*wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac sy'n cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*".

2.3.57 Wrth gyrraedd y casgliad hwn, dechreuodd yr Arolygwyr drwy edrych ar y brif broblem yn ymwneud â ffosffadau a p'un a fyddai hyn yn effeithio ar ddarparu'r datblygiad. Daeth yr Arolygwyr i'r casgliad "*Rydym yn fodlon, er gwaethaf yr ansicrwydd a godwyd o'r angen i liniaru ffosfforws, bydd gofyniad tai y CDLl yn cael ei ddarparu yn ystod cyfnod y Cynllun*".

2.3.58 Yna edrychodd yr Arolygwyr ar y materion a godwyd mewn sylwadau yn nhrefn y Cynllun gan roi sylwadau ar bob un o'r canlynol:

- Paratoi'r Cynllun
- Strategaeth y Cynllun a Thwf Strategol
- Lleoliad Datblygiad
- Yr Economi a Chyflogaeth
- Tai yn cynnwys dewis safle a dyraniadau penodol
- Ystod o faterion eraill yn cynnwys Tai Amlfeddiannaeth, Llety Sipsiwn a Theithwyr, Amgylchedd Naturiol, Newid Hinsawdd a mwynau.

2.3.59 Ym mhob achos bu i'r Arolygwyr ddweud bod y dull yn gyson â PCC ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy.

2.3.60 Cafodd dau NMCau eu diwygio ymhellach o fewn Adroddiad yr Arolygydd: NMC58 a NMC61. Penderfynwyd nad oed angen NMC58 a chefnogwyd NMC61 yn amodol ar ddileu'r frawddeg olaf (gweler Tabl 2-9). Mân ddiwygiadau yw'r rhain a phenderfynwyd nad oeddent yn effeithio ar ganfyddiadau Atodiad yr AEI.

*Tabl 2-9: Rhestr o Newidiadau y Materion sy'n Codi a diwygiwyd trwy Adroddiad yr Arolygydd*

| Cyf Newidiadau y Materion sy'n Codi | Polisi / Paragraff | Newidiadau y Materion sy'n Codi | Rheswm |
|---|---|---|---|
| **NMC 058** | PE1 | Ar ddiwedd geiriad rhagarweiniol PE1, ychwanegu '**ac eithrio safle Porth y Gogledd sydd wedi ei ddyrannu ar gyfer defnydd B2 a B8 a safle Warren Hall sydd yn addas ar gyfer defnydd B1 a B2**'.<br>Y geiriad diwygiedig yw 'Mae'r safleoedd canlynol, fel y'u diffinnir ar y map cynigion, wedi eu dyrannu ar gyfer defnydd cyflogaeth B1, B2 a B8 **ac eithrio safle Porth y Gogledd sydd wedi ei ddyrannu ar gyfer defnydd B2 a B8 a safle Warren Hall sy'n addas ar gyfer defnydd B1 a B2**." | I egluro nad yw Porth y Gogledd yn addas ar gyfer defnydd B1 ac nad yw safle Warren Hall yn addas ar gyfer defnydd B8. |
| **NMC 061** | PE1 10.1 | Dileu paragraff 10.1 a'r tabl sy'n cyd-fynd ag ef ac yn ei le, rhoi '**Mae'r Cynllun yn dyrannu 124.97ha o dir ar gyfer datblygiadau cyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys y ddau safle defnydd cymysg strategol ym Mhorth y Gogledd a Warren Hall a sawl dyraniad arall mwy lleol. Mae'r Cynllun yn darparu amrywiaeth o safleoedd cyflogaeth o ran lleoliad, maint a math ar gyfer amrywiaeth o anghenion buddsoddi. Bwriedir i bob safle ddarparu ar gyfer datblygiadau cyflogaeth B1, B2 a B8 ac eithrio Warren Hall sydd ar gyfer B1 a B2 yn unig**.' | I adlewyrchu newidiadau i ddyraniadau cyflogaeth yn PE1 yn cynnwys arwynebedd cyflogaeth llai yn Warren Hall. |

## 2.4 Monitro

2.4.1 Mae Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol yn gofyn bod y cynllun yn cael ei fonitro i fesur yr effeithiau a ddaw yn sgil gweithredu'r cynllun yn erbyn y rhai a ragwelwyd drwy'r asesiad. Mae'r broses hon yn helpu i sicrhau bod unrhyw effeithiau amgylcheddol annymunol yn cael eu nodi a bod camau adferol yn cael eu rhoi ar waith yn unol â hynny. Ar sail yr asesiad a gynhaliwyd ar y dewisiadau ac yn sgil dod o hyd i effeithiau arwyddocaol posib' ar yr amgylchedd, mae fframwaith monitro wedi'i baratoi a'i gyflwyno ym Mhennod 5 y Datganiad ar ôl Mabwysiadu hwn.

## 2.5 Sut mae canfyddiadau'r AEI wedi'u hystyried

2.5.1 Mae Adroddiadau'r AEI wedi gwerthuso opsiynau twf tai, opsiynau gofodol a nifer o opsiynau lleoliad safle drwy gydol y broses o lunio'r cynllun.

2.5.2 Drwy gydol y broses o lunio'r cynllun, mae penderfyniadau'r Cyngor wedi'u llywio gan berfformiad cynaliadwyedd yr opsiynau a nodwyd yn ystod y broses AEI sy'n cyd-fynd. Mae cynaliadwyedd yn nod hanfodol ac yn llinyn cyson sy'n rhedeg trwy CDLl Sir y Fflint. Mae'r AEI wedi darparu argymhellion i'r Cyngor mewn proses ailadroddol sydd fel arfer ar ffurf newidiadau i geiriad y polisi, neu argymhellion sy'n ymwneud â rheoli datblygu ar gyfer dyraniadau safle, a gynlluniwyd i helpu i osgoi neu leihau'r effeithiau negyddol a gwella'r effeithiau cadarnhaol. Mae llawer o'r argymhellion hyn wedi'u mabwysiadu gan y Cyngor ac wedi gwneud gwelliant amlwg i berfformiad cynaliadwyedd CDLl Sir y Fflint.

2.5.3 Mae argymhellion wedi'u darparu i'r Cyngor, ac ymgynghorwyd arnynt, ar draws tri cham yr AEI:

- Arfarniad o Gynaliadwyedd yr Opsiynau Strategol (Hydref 2016):
- Asesiad o Effaith Integredig y Strategaeth a Ffefrir (Hydref 2017); ac
- Asesiad o Effaith Integredig y CDLl i'w Archwilio gan y Cyhoedd (Medi 2019).

2.5.4 Mae ymateb y Cyngor i argymhellion yr AEI wedi'i nodi yn adran 3.7 Atodiad yr AEI[18] a'i ailadrodd yn adran 2.3 uchod. Mae'r adran hon yn nodi sut y bu i'r Cyngor ymgorffori argymhellion yr AEI i geiriad y polisi neu sut yr ymdrinnir â hwy mewn dogfennau eraill yn cynnwys y Canllaw Cynllunio Atodol (CCAau). Pe bai'r Cyngor yn penderfynu nad oedd modd cyflawni'r argymhellion, mae'r Cyngor wedi nodi'r rhesymau dros hyn.

---

[18] Ar gael yn: https://www.flintshire.gov.uk/cy/PDFFiles/Planning/Examination-Library-Documents/Addendum-Integrated-Impact-Assessment.pdf [Cyrchwyd: 03/01/23]

# 3 Sut mae barn y Cyrff Ymgynghori wedi'i hystyried

## 3.1 Ymgynghoriad ar y CDLl

3.1.1 Mae datblygiad y CDLl wedi'i lywio drwy ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn barhaus, yn unol â'r Rheoliadau Cynllunio Tref a Sir. Mae Tabl 3-1 yn nodi'r ymgynghoriadau allweddol a gynhaliwyd yn ystod datblygiad y Cynllun. Gellir dod o hyd i'r holl ddogfennau ar dudalen Cyflwyno'r CDLl[19].

*Tabl 3-1: Dogfennau'r Cynllun Datblygu Lleol a lle i ddod o hyd iddynt*

| Dogfennau'r Cynllun Datblygu Lleol | Ymgynghoriad a gynhaliwyd |
|---|---|
| Safleoedd Ymgeisiol | Galwad Cychwynnol am Safleoedd 28 Chwefror i 30 Mai 2014.<br>Galwad Pellach am Safleoedd (Mwynau, Gwastraff a Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr) 30 Mehefin i 11 Awst 2017.<br>Roedd cyfle ar gyfer safleoedd amgen yn ystod yr ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir rhwng 9 Tachwedd a 21 Rhagfyr 2017. |
| Fforwm Budd-ddeiliaid Allweddol | Cyfarfodydd ar 27 Chwefror 2015 a 12 Hydref 2016. |
| Papurau Pwnc | 9 Mawrth i 20 Ebrill 2015 |
| Dogfen Negeseuon Allweddol | 18 Mawrth i 29 Ebrill 2016 |
| Opsiynau Strategol | 28 Hydref i 9 Rhagfyr 2016 |
| Y Strategaeth a Ffefrir | 9 Tachwedd i 21 Rhagfyr 2017 |
| Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd | 30 Medi i 11 Tachwedd 2019 |
| Newidiadau y Materion sy'n Codi | 17 Mehefin a 29 Gorffennaf 2022 |

## 3.2 Ymgynghori ar Adroddiadau'r AEI

3.2.1 Mae Adroddiadau'r AEI sydd wedi'u paratoi, a lle y gellir cael mynediad atynt ar-lein, wedi'u nodi yn Nhabl 3-2. Mae hwn hefyd yn cynnwys cyfeiriad at ble mae rhagor o wybodaeth ar yr ymatebion i bob ymgynghoriad wedi'u cofnodi a sut mae barn y cyrff ymgynghori wedi'i hystyried.

*Tabl 3-2: Adroddiadau'r Asesiad o Effaith Integredig a lle i ddod o hyd iddynt*

| Adroddiadau'r AEI | Ble i ddod o hyd iddynt |
|---|---|
| Adroddiad Cwmpasu'r AEI (2015) [a baratowyd gan Hyder a gyhoeddwyd gan Arcadis] | https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/Key-Process-Documents-Policy/LDP-KPD-IIA-SA-scoping-Report-Mar-2015.pdf |
| Adroddiad yr AEI ar Ddewisiadau Strategol (2016) | https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/Key-Process-Documents-Policy/LDP-KPD-IIA2-SA-Strategic-Options-Oct-2016.pdf |

[19] Ar gael yn: https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Planning/Submission.aspx [Cyrchwyd: 06/01/23]

| Adroddiadau'r AEI | Ble i ddod o hyd iddynt |
|---|---|
| CDLl y Strategaeth a Ffefrir: AEI Interim (2017) | https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/Key-Process-Documents-Policy/LDP-KPD-IIA3-IIA-Preferred-Strategy-Oct-2017.pdf https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/Key-Process-Documents-Policy/LDP-KPD-IIA3.1-IIA-Pref-Strat-Non-Tech-Sum-2017.pdf |
| CDLl i'w Archwilio gan y Cyhoedd: Adroddiad Amgylcheddol yr AEI (2019) | https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/Key-Process-Documents-Policy/LDP-KPD-IIA4-Deposit-IIA-Sept-2019.pdf https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/Key-Process-Documents-Policy/LDP-KPD-IIA4.1-Deposit-IIA-Appendix-A-D.pdf https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/Key-Process-Documents-Policy/LDP-KPD-IIA4.2-Deposit-IIA-Appendix-E.pdf |
| Atodiad Newidiadau y Materion sy'n Codi yr AEI (Rhagfyr 2021) | https://www.flintshire.gov.uk/cy/PDFFiles/Planning/Examination-Library-Documents/Addendum-Integrated-Impact-Assessment.pdf |

## 3.3 Ystyriaeth o'r Ymatebion

3.3.1 Mae'r safbwyntiau a fynegwyd drwy gydol yr ymgynghoriad a amlinellwyd uchod wedi llywio cwmpas yr AEI, gan helpu yn ei dro i lunio datblygiad y CDLl.

3.3.2 Aeth y Cynllun drwy nifer o gamau ymgysylltu cynnar a oedd â'r nod o adeiladu consensws wrth i'r Cynllun ddatblygu. Yn benodol, roedd cam ychwanegol o'r enw dogfen Negeseuon Allweddol yn destun ymgysylltiad i benderfynu ar Weledigaeth ac Amcanion Strategol y CDLl yn ogystal â'r hierarchaeth anheddiad ac archwiliadau anheddiad atodol.

3.3.3 Ar bob cam, ystyriwyd sylwadau gan Swyddogion Cynllunio a'u cyflwyno i a'u trafod yn y Grŵp Strategaeth Cynllunio. Roedd hwn yn weithgor trawsbleidiol nad oedd ganddo unrhyw bwerau gwneud penderfyniadau ond a oedd yn cymeradwyo'r CDLl a'r sylfaen dystiolaeth cyn i'r Cabinet neu'r Cyngor wneud unrhyw benderfyniad ffurfiol. Lle bo'n angenrheidiol ac yn briodol, mae newidiadau wedi'u gwneud i'r Cynllun ar bob cam. Mae hyn wedi'i nodi mewn mwy o fanylder yn yr Adroddiadau Ymgynghori[20] [21] [22] [23].

3.3.4 Pan ymgynghorodd y Cyngor ar y CDLl i'w Archwilio gan y Cyhoedd, roedd hyn ar y sail ei fod yn Gynllun cadarn ac yn gallu cael ei gyflwyno i'w Archwilio (yn unol â chanllawiau LlC yn y Llyfryn Cynlluniau Datblygu). Dyma pam na chafodd unrhyw Newidiadau Penodol eu gwneud i'r CDLl i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn dilyn yr ymgynghoriad. Cafodd y sylwadau ar y CDLl i'w Archwilio gan y Cyhoedd eu hystyried mewn manylder a bu i'r Cyngor ymateb i bob ymateb[24]. Yn ei ymatebion, awgrymodd y Cyngor efallai y byddai'n briodol gwneud mân ddiwygiadau i'r CDLl ac y byddai'r rhain yn cael eu hystyried fel rhan o'r Archwiliad.

[20] Ar gael yn: https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/Key-Process-Documents-Policy/LDP-KPD-CR1-Consultation-Report-Oct-2020.pdf [Cyrchwyd: 06/01/23]
[21] Ar gael yn: https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/Key-Process-Documents-Policy/LDP-KPD-CR1a-Consultation-Report-Appendices-21a-to-24.pdf [Cyrchwyd: 06/01/23]
[22] Ar gael yn: https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/Key-Process-Documents-Policy/LDP-KPD-CR1b-Consultation-Report-Appendices-25a-to-29d.pdf [Cyrchwyd: 06/01/23]

[23] Ar gael yn: https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/Key-Process-Documents-Policy/LDP-KPD-CR1c-Consultation-Report-Appendices-30-to-33.pdf [Cyrchwyd: 06/01/23]
[24] Ar gael yn https://consult.flintshire.gov.uk/portal/planning/ldp/ldp/representations [Cyrchwyd: 06/01/23]

# 4 Y rhesymau dros ddewis y CDLl a fabwysiadwyd yng ngoleuni'r dewisiadau amgen rhesymol a ystyriwyd

## 4.1 Trosolwg

4.1.1 Mae Rheoliad 12 (2) yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn gofyn bod "*adroddiad amgylcheddol yn cael ei baratoi lle bydd yr effeithiau arwyddocaol tebygol ar yr amgylchedd o weithredu'r cynllun neu'r rhaglen, a dewisiadau amgen rhesymol sy'n ystyried amcanion a chwmpas daearyddol y cynllun neu'r rhaglen, yn cael eu nodi, eu disgrifio a'u gwerthuso*".

4.1.2 Mae'r wybodaeth i'w ddarparu yn cynnwys "*amlinelliad o'r rhesymau dros ddewis y dewisiadau amgen a ymdrinnir â hwy*" (Atodlen 2 (8) Rheoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol) a throsolwg o'r mathau o ddewisiadau amgen a ystyriwyd (senarios datblygu, dyraniadau safle ac ati).

4.1.3 Yn '*R (ar gais Cyfeillion y Ddaear Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon Cyf) v Gweinidogion Cymru [2015] Env LR 1*', bu i Hickinbottom J ddarganfod y canlynol, mewn perthynas â dewisiadau amgen rhesymol:

*"iv) Nid yw "dewisiadau amgen rhesymol" yn cynnwys yr holl ddewisiadau amgen posibl: mae defnyddio'r gair "rhesymol" yn amlwg ac o reidrwydd yn golygu bod barn werthusol ynghylch pa ddewisiadau amgen y dylid eu cynnwys. Bod gwerthuso yn fater sy'n bennaf ar gyfer yr awdurdod sy'n gwneud penderfyniadau, yn destun her ar sail cyfraith gyhoeddus gonfensiynol yn unig.*

*v) Mae Erthygl 5(1) yn cyfeirio at "ddewisiadau amgen rhesymol yn ystyried amcanion… y cynllun neu'r rhaglen…". Mae "rhesymoldeb" yn y cyd-destun hwn wedi'i lywio gan yr amcanion i'w cyflawni. Nid yw dewis nad yw'n cyflawni'r amcanion, hyd yn oed os ellir ei alw'n "ddewis amgen" i'r cynllun a ffefrir, yn "ddewis amgen rhesymol". Mae dewis a fydd, neu a all yn synhwyrol, gyflawni'r amcanion yn "ddewis amgen rhesymol". Mae Cyfarwyddeb Asesiadau Amgylcheddol Strategol yn derbyn y posibilrwydd o beidio â chael unrhyw ddewisiadau amgen o'r fath mewn achos penodol: os mai dim ond un dewis sy'n cael ei asesu fel un sy'n bodloni'r amcanion, ni fydd "dewisiadau amgen rhesymol" iddo.*

*vi) Mae'r cwestiwn o ran p'un a fydd dewis yn cyflawni'r amcanion yn fater i farn werthusol yr awdurdod yn ei hanfod, yn destun wrth gwrs, her ar sail cyfraith gyhoeddus gonfensiynol. Os yw'r awdurdod yn penderfynu'n rhesymegol na fydd dewis penodol yn bodloni'r amcanion, nid yw'r dewis hwnnw yn ddewis amgen rhesymol ac nid oes rhaid ei gynnwys ym mhroses neu Adroddiad yr Asesiad Amgylcheddol Strategol".*

## 4.2 Arfarniad o'r Dewisiadau Amgen

4.2.1 Mae'n rhaid i ddewisiadau amgen fod yn realistig ac maent yn debygol o godi yn ystod y broses o lunio cynlluniau. Mae dewisiadau amgen wedi bod yn ganolbwynt ar gyfer sawl her gyfreithiol yn y DU ac felly mae'n bwysig sicrhau bod dewisiadau amgen rhesymol yn cael ystyriaeth briodol. Os nad oes wir unrhyw ddewisiadau amgen rhesymol i gynnig cynllun, ni ddylid llunio rhai artiffisial.

4.2.2 Drwy gydol y CDLl a'r proses AEI sy'n cyd-fynd, mae'r holl ddewisiadau amgen rhesymol wedi'u hasesu am eu perfformiad cynaliadwyedd tebygol. Mae canlyniadau'r asesiadau hyn wedi

llywio proses gwneud penderfyniadau'r Cyngor o ran pa ddewisiadau i'w dewis fel eu 'dewisiadau a ffefrir' ac yn y pen draw sy'n cael eu cynnig yn y CDLl.

## Safleoedd Amgen

# 4.3 Cyfiawnhad dros ddewis neu wrthod dewisiadau amgen rhesymol

## Y Strategaeth a Ffefrir

4.3.1 Ar ôl ystyried y dewisiadau sydd ar gael yn ofalus, nododd y Cyngor y strategaeth a ffefrir ganddynt ar gyfer y CDLl ac ymgymryd ag ymgynghoriad cyn cael ei archwilio gan y cyhoedd ar Strategaeth a Ffefrir y CDLl rhwng 09 Tachwedd 2017 a 21 Rhagfyr 2017. Roedd Strategaeth a Ffefrir y CDLl (2017) hefyd yn nodi strategaeth ofodol a ffefrir y Cyngor, sy'n parhau yn y CDLl terfynol. Mae'r dewis a ffefrir ar gyfer dosbarthiad gofodol datblygiad yn seiliedig ar Ddewis Gofodol 5 y 'Gwasgariad Cynaliadwy a Dull wedi'i Fireinio ar gyfer Aneddiadau Gwledig', lle mae twf wedi'i gyfeirio at y tair haen uchaf o'r hierarchaeth aneddiad ac yn y ddwy haen isaf mae darpariaeth wedi canolbwyntio ar fodloni anghenion lleol.

4.3.2 Roedd Strategaeth a Ffefrir y CDLl (2017) yn nodi dewis a ffefrir y Cyngor ar gyfer twf, sydd yr un fath yn y CDLl terfynol. Y dewis a ffefrir yn y CDLl i'w Archwilio gan y Cyhoedd ar gyfer lefel y twf yw bod y CDLl yn ceisio darparu 8-10,000 o swyddi trwy oddeutu 223ha o dir cyflogaeth, wedi'i gefnogi gan ddarpariaeth tai ar gyfer 7,645 o dai newydd i fodloni gofyniad tai o 6,950 o anheddau. Roedd hyn yn cynrychioli cymysgedd o Ddewisiadau Twf 4 a 6. Yn dilyn Newidiadau y Materion sy'n Codi, cafodd hwn ei ddiwygio i ddarparu 124.97ha o dir cyflogaeth a 7,870 o dai newydd.

4.3.3 Defnyddiwyd gwybodaeth ddemograffig, tai ac economaidd leol i ddewis y dewis a ffefrir. Mae'r dewisiadau twf wedi'u llywio gan dueddiadau a rhagamcanion demograffig ac effaith gwahanol ragdybiaethau wrth gynhyrchu'r dewisiadau. Ystyriaeth arall yw gallu'r farchnad a'r diwydiant datblygu i ddarparu'r datblygiad y bydd y Cynllun yn gwneud darpariaeth ar ei gyfer. Mae'r Cyngor yn ceisio lefel o dwf yn seiliedig ar yr amodau economaidd ar y pryd yn Sir y Fflint, argaeledd cyllid datblygu, neu gapasiti datblygwyr lleol a rhanbarthol i ymateb i'r ddarpariaeth a wnaed gan y Cynllun, wedi'i osod yn erbyn banc tir lleol.

4.3.4 Yn ganolog i gyfiawnhad y Cyngor ar gyfer y dewis twf arfaethedig y mae'r angen hanfodol i sicrhau bod lefel y twf sy'n cael ei geisio yn hyfyw a chyflawnadwy. Yn seiliedig ar adborth gan nifer o ddatblygwyr sy'n gweithredu'n lleol mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar y Dewisiadau Strategol roedd consensws cyffredinol nad oedd y dewisiadau twf uwch yn briodol nac yn bosibl i'w cyflawni.

4.3.5 Mae'r Cyngor yn cydnabod na fydd dibynnu ar lefel gymharol isel o dwf aelwydydd a ragwelir yn darparu sail gadarn i ddatblygu a chefnogi'r uchelgais twf ar gyfer y CDLl, wedi'i sbarduno gan yr angen am adferiad economaidd a thwf swyddi, gan fanteisio ar leoliad a rôl Sir y Fflint yn yr economi leol ac is-ranbarthol ehangach. Mae'r Strategaeth yn ceisio hyrwyddo datblygu economaidd a chyfraniad y Sir at y Weledigaeth Twf economaidd rhanbarthol ehangach, gyda'r angen i alluogi darpariaeth swyddi, tai a lle bo angen, isadeiledd, sydd ei angen i ddarparu ar gyfer y twf hwn yn gynaliadwy.

4.3.6 Cafodd pob Dewis Strategol ei asesu am ei effeithiau cynaliadwyedd tebygol yn Adroddiad AoG Dewisiadau Strategol yr AEI (Hydref 2016). Cynhaliwyd yr asesiad gan ddefnyddio dull syml yn seiliedig ar fatrics, yn yr hydref 2016. Roedd yr argymhellion a ddarparwyd yn cyfrannu

at eu mireinio a diffiniad y Strategaeth a Ffefrir.

4.3.7 Mewn perthynas â’r Dewisiadau Gofodol, cafodd y gwahanol ddewisiadau i gyd sgôr debyg ar yr Amcanion amgylcheddol o ran datblygu gan y disgwylid i’r rhan fwyaf o'r safleoedd a ddeuai i'r amlwg fod ar dir glas. O gymharu â thebygrwydd canlyniad yr asesiad rhwng y pum Dewis a’r Amcanion amgylcheddol, roedd mwy o amrywiaeth rhwng y Dewisiadau pan aseswyd hwy yn erbyn Amcanion cymdeithasol ac economaidd yr Asesiad o Effaith Integredig. Roedd Dewis 1 yn eithaf anhyblyg o ran sut mae’n penderfynu ar niferoedd tai yn ôl y diffiniad a roddwyd i anheddiad penodol ac felly, gallai senarios twf uwch fethu â chydnabod nad yw rhai aneddiadau'n gallu ymdopi â thwf o'r fath yn niferoedd y tai. Mae Dewisiadau 2, 3 a 4 yn perfformio’n debyg o ran yr Amcanion cymdeithasol ac economaidd, gan eu bod oll yn canolbwyntio’n benodol ar elfen ddaearyddol benodol o ddatblygu (Dewis 2 yn edrych ar dwf trefol presennol, gan ganolbwyntio ar dwf mewn Prif Ganolfannau Gwasanaethau a rhai Lleol yn unig, Dewis 3 yn edrych ar dwf mewn aneddiadau sydd wedi'u nodi yn unig, yn unol â Chynllun Gofodol Cymru, a Dewis 4 ar hyd coridorau cludiant). Mae Dewis Gofodol 5 yn amrywiad ar Ddewis 1 ond mae’n defnyddio dull sy'n ystyried achosion unigol yn fwy er mwyn sicrhau bod twf a hyfywedd gwledig wedi'i arwain gan amgylchiadau lleol.

4.3.8 Mae prif resymau’r Cyngor dros ddilyn y strategaeth a ffefrir (fel y nodwyd gan y Cyngor yn 2017) yn cynnwys:

- Cynnal portffolio tir cyflogaeth o 139.67 hectar i adlewyrchu lleoliad strategol Sir y Fflint, patrwm hanesyddol datblygu a darparu dewis o gyfleoedd buddsoddi.
- Ceisio hwyluso cyfraniad Sir y Fflint i ddyhead creu swyddi’r Weledigaeth Twf rhanbarthol, drwy alluogi i 8-10,000 o swyddi gael eu creu;
- Sicrhau cyflenwad tir tai i ddarparu 7,950 o aneddiadau i fodloni gofyniad tai y CDLl o 6,950 o aneddiadau;
- Mae’r gofyniad hwn yn deillio o’r dewis twf a arweinir gan gyflogaeth ac yn darparu tai digonol i gefnogi twf economaidd;
- Mae hyn yn gyfwerth â chyfradd adeiladu gyfartalog o 463 annedd y flwyddyn dros gyfnod y Cynllun. O gymharu, y gyfradd adeiladu flynyddol gyfartalog dros y 10 mlynedd diwethaf oedd 427 (573 dros y 5 mlynedd diwethaf). Cyfartaledd y tai a gwblhawyd yn nhair blynedd gyntaf cyfnod y Cynllun yw 563 (cyfanswm o 1,691), gan ddangos bod y Cynllun ar y llwybr iawn o ran galluogi darpariaeth;
- Mae capasiti ar gyfer 1,771 o aneddiadau ar safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio (ymrwymiadau) sydd naill ai wrthi’n cael eu hadeiladu neu y mae disgwyl iddynt gael eu darparu o fewn 5 mlynedd. Mae’r Cynllun yn gwneud lwfansau cymharol fach ar gyfer datblygiad hap-safleoedd a safleoedd bach ac mae’r sail dystiolaeth yn dangos bod mwy o gapasiti yn bod yma;
- Er mai’r gofyniad gweddillol ar gyfer safleoedd newydd yw 879, mae’r Cynllun wedi dyrannu 1,874 annedd ar safleoedd newydd cynaliadwy, gan ddarparu, o ganlyniad, hyblygrwydd cyffredinol o 14.4%. Mae hyn yn orddarpariaeth hael ac fe fydd yn helpu i sicrhau danfonadwyedd cyffredinol gofyniad tai’r Cynllun;
- Mae’r Cynllun wedi dewis dull cynaliadwy a hyblyg i ddosbarthu twf yn y tair haen uchaf o’r hierarchaeth anheddiad cynaliadwy, o fewn y prif ganolfannau gwasanaeth a’r rhai lleol, yn ogystal â’r pentrefi cynaliadwy;
- Rhan o’r ymagwedd i alluogi twf oedd i ddyrannu safleoedd digonol i ddarparu ystod o ddewis o ran dewisiadau datblygu hyfyw, tra hefyd yn sicrhau bod y banc tir sylweddol o ganiatâd heb ei gyflawni hefyd yn cael ei ddwyn ymlaen. Tra bod gan y Cynllun hefyd dau ddyraniad safle strategol gydag elfennau sylweddol o dai, nid yw’r Cynllun yn or-ddibynnol ar y rhain, ac mewn unrhyw ddigwyddiad mae elfen sylweddol o ddarparu tai ar y safle mwyaf o’r ddau ym Mhorth y Gogledd ar fin digwydd drwy ddau gais am gamau mawr o ran tai. Bydd nod y Cynllun o lwfans hyblygrwydd o 15% hefyd yn helpu i gydbwyso’r ymrwymiad strategol hwn;
- Ystyrir i strategaeth ofodol sy’n cynnwys dau safle strategol ac ystod o ddyraniadau tai llai eistedd yn gyfforddus ochr yn ochr â strategaeth ofodol Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer

sy'n cynnwys datblygiad defnydd cymysg strategol yn Ffordd Wrecsam, Caer ac un Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n cynnwys dau ddyraniad strategol yn nhref Wrecsam ac ystod o ddyraniadau tai llai;

- Mae Rhwystrau Glas (lletemau) wedi'u hadolygu a'u dyrannu i reoli twf a ffurf drefol yn strategol, ac i gyflawni eu rôl o ran cynnal natur agored yr ardal y maent yn ei ddarparu ar ei chyfer;
- Mae'r Cyngor wedi gweithio â darparwyr isadeiledd i ddatblygu'r Cynllun i sicrhau bod capasiti digonol i ddarparu ar gyfer twf, neu bod modd cynyddu'r capasiti, sut a phryd, er mwyn i ddatblygiad allu digwydd; a
- Bod y safleoedd sydd wedi'u dyrannu yn y cynllun i ddarparu ar gyfer twf hefyd yn gyflawnadwy, ar ôl cael eu hasesu'n annibynnol o ran eu hyfywedd. Felly nid oes unrhyw rwystrau i'r gallu i gyflawni o fewn y Cynllun, a'r diwydiant datblygu fydd yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd a gynigiwyd gan y Cynllun.

4.3.9 Trwy Newidiadau y Materion sy'n Codi, ac oherwydd treigl amser (h.y. rhai dyraniadau safle yn cael eu hadeiladu), mae'r strategaeth dwf derfynol yn amrywio ychydig i'r strategaeth a ddewisir mewn perthynas â thir cyflogaeth a niferoedd tai.

## Dyraniadau a Ffefrir

4.3.10 Er mwyn cyrraedd y rhestr o safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLl, bu i'r Cyngor ystyried ystod o leoliadau amgen ar gyfer datblygu ac yn y pen draw dewiswyd safleoedd a fyddai'n darparu ar gyfer y lefelau gofynnol o ddatblygiad, sydd ar gael, yn hyfyw ac yn gyflawnadwy wrth gydymffurfio â strategaeth a ffefrir y CDLl. Mae cynaliadwyedd pob lleoliad hefyd wedi bod yn ystyriaeth allweddol ar gyfer y Cyngor wrth ddyrannu safleoedd ar gyfer datblygu.

4.3.11 Tabl 4-1 isod yn rhestru'r safleoedd amgen rhesymol a gafodd eu hystyried a'u hasesu yn y CDLl i'w Archwilio gan y Cyhoedd. Gellir dod o hyd i ganlyniadau'r AEI yn llawn yn Atodiad E yr AEI i'w Archwilio gan y Cyhoedd.

*Tabl 4-1: safleoedd amgen rhesymol a ystyriwyd ar y cam CDLl i'w Archwilio gan y Cyhoedd*

| Polisi / cyfeirnod safle'r CDLl | Lleoliad | Datblygiad a gynigiwyd/posibl |
|---|---|---|
| BUC022/035 | Gerllaw Ystâd Ddiwydiannol Catheralls | Tai |
| DRU001 | Bank Lane Holding (Tir i'r Gorllewin o Bank Lane) | Tai |
| HOL017 | Tir i'r De o Ffordd Beuno, Holway | Tai |
| HOL024-AS | Tir i'r Gogledd o A5026 / Gorllewin Ffordd Beuno, Holway | Tai |
| MOL047 a 046 | Tir i'r De o Ffordd Gwernaffield | Tai |
| MOL017 | Neuadd y Sir | Tai |
| BROU001 | Ffordd Bretton | Tai |
| GRE002 | Tan Y Felin | Tai |
| HCAC025 | Pool House, Ffordd Dinbych/Gorllewin Beechwood Close | Tai |
| CAE006 | I'r Gogledd o Summerhill Farm | Tai |
| BUC030/037 | Ffordd Caer / Bannel Lane | Tai |
| DRU009 | Bwthyn Woodside, Bank Lane | Tai |
| LEE004 | Ochr/Cefn Eglwys Methodist Wesleaidd, Heol y Brenin | Tai |
| MOS002 | Ffordd Pennant | Tai |
| NEW003 | Tir rhwng Moorcroft a'r A494(T) | Tai |
| NEW001 | Tir i'r Dwyrain o Haven Green, A5119 | Tai |
| BAG014 | Hen Safle Depo Canton | Tai |
| SAFLE NEWYDD | Bedol Farm | Tai |
| SAFLE NEWYDD | I'r Dwyrain o Ffordd Newydd Drury | Tai |
| NH020 | Tir i'r De o Wellfield Farm, Village Road | Tai |
| PEN037 | Tir i'r Gogledd o Wood Lane Farm | Tai |
| SYCH022 | Tir i'r Gogledd Ddwyrain o Fwthyn Vownog | Tai |
| SAFLE NEWYDD | Halkyn Road | Tai |
| COE005 | Hen Safle Clwyd Alloys | Tai |
| LEE007 | Rhan Ddeheuol o Hen Safle Laura Ashley | Tai |

4.3.12 Mae proses y Cyngor o nodi'r safleoedd sydd ar gael ar gyfer datblygu a dewis y dewisiadau a ffefrir ganddynt o'r rhain wedi bod yn broses hir, trylwyr a chadarn wedi'i gefnogi gan nifer o astudiaethau a dogfennau tystiolaeth yn ogystal ag ymgynghoriad gyda budd-ddeiliaid ar gamau allweddol. Mae'r Cyngor wedi paratoi papur cefndir ar gyfer y CDLl i'w Archwilio gan y Cyhoedd o dan y teitl 'Papur Cefndir 8: Asesiad o Safleoedd Ymgeisiol ac Amgen'[25] sy'n darparu cyfiawnhad clir a chymesur ar gyfer dewis y Cyngor o safleoedd tai a ddyrannwyd yng ngoleuni'r dewisiadau amgen rhesymol a ymdrinnir â hwy. Yn gyffredinol, mae'r Cyngor wedi ceisio dyrannu safleoedd sy'n cydymffurfio â strategaeth y CDLl ac sydd â buddion cynaliadwyedd amlwg.

4.3.13 Mae'r Cyngor wedi ystyried nad oedd safleoedd amgen rhesymol ar gyfer mathau eraill o ddatblygiad, fel safleoedd mwynau neu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, ar gael i'w hystyried.

## Dewisiadau Amgen Rhesymol ar ôl Archwilio

4.3.14 Cynigiwyd diwygiadau i'r CDLl yn ystod Gwrandawiadau'r Archwiliad. Bu i'r rhan fwyaf o'r newidiadau hyn godi o gytundeb y Pwyntiau Gweithredu ar ddiwedd bob sesiwn Gwrandawiad. Roedd y drafodaeth hon yn cynnwys crynodeb o'r pwyntiau a godwyd yn y sesiwn honno a chafodd y newidiadau / gwaith pellach sydd angen ei wneud eu cofnodi gan Swyddogion y Cyngor. Cafodd cyfranogwyr y gwrandawiad Archwilio hefyd y cyfle i gyfrannu. Yna cytunwyd ar y Pwyntiau Gweithredu gan yr Arolygydd cyn iddynt gael eu cyhoeddi gan y Cyngor. Mewn sesiwn, byddai'r Arolygydd wedi cael budd o ddewisiadau amgen i:

- gadw safle heb ei newid;
- cadw safle wedi ei newid; neu
- ddileu safle.

4.3.15 Yn yr un modd, gyda newidiadau i geiriad y polisi, cyflwynwyd dewisiadau gwahanol gan y Cyngor, y gwrthwynebwyr, ac weithiau gan yr Arolygydd. Roedd y Pwynt Gweithredu yn adlewyrchu beth oedd yr Arolygydd yn meddwl oedd y dewisiadau mwyaf addas. Mewn nifer fechan o achosion, aeth yr Arolygydd i ffwrdd a rhoi ystyriaeth bellach i hyn a darparu geiriad diwygiedig i'r Cyngor.

4.3.16 Cafodd llawer o'r newidiadau i geiriad y polisi eu sbarduno gan gyhoeddiad PCC, ac felly, nid oes unrhyw ddewisiadau amgen rhesymol i'r newidiadau hyn, gan na fyddai unrhyw ddewisiadau eraill yn unol â Pholisi Cynllunio diweddaraf Cymru.

4.3.17 Cafodd chwe safle cyflogaeth eu tynnu o'r CDLl yn ystod yr archwiliad, i adlewyrchu'r diffyg tystiolaeth ddigonol i ddangos y gall effeithiau llifogydd gael eu rheoli'n dderbyniol ar y dyraniadau hyn. Gwnaed diwygiadau i'r dyraniad yn safle STR3B i adlewyrchu'r arwynebedd cyflogaeth llai yn Warren Hall. Mewn perthynas â safle STR3B, roedd gan yr Arolygydd y dewisiadau canlynol o'i blaen:

i. cadw'r dyraniad gyda'r elfen dai;
ii. cadw'r dyraniad gyda'r elfen dai wedi'i dileu; ac
iii. amrywio ii. lle bu iddi ddisodli'r elfen dai gyda safle tai amgen yn rhywle arall.

4.3.18 Dewisodd yr Arolygydd dewis ii.

---

[25] Ar gael yn: https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/Evidence-Base-Documents/Background-Papers/LDP-EBD-BP8-Background-Paper-LDP08-Candidate-Alternative-Sites.pdf [Cyrchwyd: 10/01/23]

4.3.19 Nid oes unrhyw ddewisiadau amgen rhesymol pellach i'r Cyngor eu hystyried i'r NMCau gan eu bod wedi'u cynnig gan yr Arolygydd. Ni ystyrir bod y dewisiadau amgen i'r newidiadau arfaethedig hyn yn rhai rhesymol, gan fod gan ddewisiadau amgen y posibilrwydd o arwain at weld nad yw'r CDLl yn un cadarn.

# 5 Mesurau i fonitro effeithiau amgylcheddol sylweddol

5.1.1 Mae'r AEI wedi nodi effeithiau tebygol y CDLl ar Amcanion yr AEI. Mae arwydd o sicrwydd ac amserlenni'r effeithiau hyn hefyd wedi'u rhagfynegi. Fodd bynnag, mae perygl y bydd effeithiau cynaliadwyedd y CDLl, yn cynnwys effeithiau agweddau penodol neu effeithiau cyfunol y CDLl ar y cyd, yn wahanol i'r rhai a rhagwelir oherwydd amgylchiadau na ellir eu rhagweld.

5.1.2 Mae Rheoliadau'r Asesiadau Amgylcheddol Strategol yn ei gwneud yn ofynnol i effeithiau sylweddol posibl a all godi o ganlyniad i weithredu'r strategaeth gael eu monitro. Mae Rheoliadau'r AAS yn dweud: *"Y dylai'r awdurdod cyfrifol fonitro effeithiau amgylcheddol sylweddol* gweithredu *pob cynllun neu raglen gyda'r diben o nodi effeithiau andwyol nad oes modd eu rhagweld ar gam cynnar a chymryd camau adferol priodol*".

5.1.3 Rhagwelir y bydd Cyngor Sir y Fflint yn monitro gweithrediad ac effeithiau'r Cynllun Lleol ar ôl ei fabwysiadu i gyfrannu at adolygu a diwygio'r cynllun yn y dyfodol. Mae Tabl 5-1 yn awgrymu rhestr bosibl o ddangosyddion a ellir eu hystyried wrth ddatblygu Fframwaith Monitro'r CDLl.

*Tabl 5-1: Fframwaith Monitro Arfaethedig*

| Amcan yr AEI | Yr effaith i'w monitro | Dangosyddion | Ffynhonnell data | Amlder |
|---|---|---|---|---|
| **1. Lleihau nifer y troseddau, anrhefn ac ofn o droseddau** | Effeithiau cadarnhaol ar leihau troseddau.<br>Effeithiau ansicr ar yr ofn o droseddau. | 1. Nifer a dosbarthiad y wardiau sydd ag Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig o ran trosedd, gan dargedu lleihad yn y rhai sy'n byw yn y 10% isaf;<br>2. Cyfraddau troseddu fesul 1,000 o'r boblogaeth ar gyfer troseddau allweddol, gan dargedu lleihad; a<br>3. % y preswylwyr sy'n canfod fod eu hansawdd bywyd wedi gwaethygu oherwydd troseddau, gan dargedu lleihad. | Rheoli Datblygu, CSFf | Bob tair blynedd |
| **2. Gwella lefelau cyrhaeddiad addysgol ar gyfer pob grŵp oed a phob sector yn y gymdeithas** | Mynediad da at addysg ar gyfer preswylwyr newydd.<br>Gall rhai ysgolion fod dros y capasiti o ganlyniad i'r CDLl. | 1. Canran y boblogaeth sydd heb gymwysterau;<br>2. Canran y boblogaeth sydd â chymhwyster NVQ2 ac uwch. | Data Swyddfa Ystadegau Gwladol ar y farchnad lafur | Blynyddol |
| **3. Gwella iechyd corfforol ac iechyd meddwl a lles i bawb a lleihau anghydraddoldebau o ran iechyd** | Mynediad da at wasanaethau iechyd<br>Rhai gwasanaethau iechyd o bosibl yn mynd dros y capasiti | 1. Nifer y wardiau yn y 10% mwyaf difreintiedig o ran iechyd, gan geisio lleihad;<br>2. Canran y bobl sy'n cael eu hystyried i fod mewn iechyd da neu dda iawn, gan dargedu cynnydd;<br>3. Canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon neu ymarfer corff rheolaidd, gan dargedu cynnydd; a<br>4. Nifer y meddygfeydd yn y Sir sydd â chapasiti dros ben, gan geisio sicrhau bod digon o gapasiti i fodloni anghenion lleol. | Mynegai Amddifadedd Lluosog<br>Proffiliau Ardal Asesiad Lles<br>Rheoli Datblygu, CSFf | Bob tair blynedd |
| **4. Darparu mynediad at dai fforddiadwy o ansawdd da sy'n diwallu anghenion a gofynion y gymuned** | Bydd y CDLl yn bodloni anghenion tai y gymuned gyfan | 1. Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref<br>2. Cyflenwad tai mewn perthynas â'r angen o ran tai<br>3. Nifer y tai fforddiadwy | Rheoli Datblygu, CSFf | Blynyddol |
| **5. Gwella mynediad cynaliadwy at nwyddau, gwasanaethau ac amwynderau sylfaenol i bob grŵp** | Bydd rhai preswylwyr newydd yn debygol o gael dibyniaeth gymharol uchel ar ddefnydd o gar personol | 1. Siwrnai i'r gwaith yn ôl y dull h.y. % y rhai sy'n dewis cerdded, beicio, cymryd y bws neu'r trên i'r gwaith, gan dargedu cynnydd cyson mewn dulliau cludiant cynaliadwy;<br>2. Pellter cyfartalog a deithiwyd i'r gwaith; a<br>3. Pellter a deithiwyd i'r gwaith, gan geisio sicrhau bod preswylwyr fel arfer o fewn ychydig o gilometrau o'u man gwaith. | Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar y farchnad lafur | Bob tair blynedd |
| **6. Creu cymunedau cryf a chydlynol** | Bydd y CDLl yn sicrhau bod preswylwyr newydd yn cael eu lleoli o fewn cymunedau sydd eisoes yn bod<br>Gall y CDLl leoli preswylwyr newydd yn agos at lygryddion aer, sŵn a golau, y dylid ei osgoi a'i fonitro | 1. Canran y bobl sy'n teimlo bod eu hardal leol yn lle y gall pobl o wahanol gefndiroedd gyd-fyw;<br>2. Y gefnogaeth a ddarperir i'r rhai sy'n teimlo'n unig ac ynysig;<br>3. % y preswylwyr sy'n byw mewn ardaloedd sydd ag ansawdd aer sy'n beryglus o isel. | Rheoli Datblygu, CSFf | Bob tair blynedd |

| Amcan yr AEI | Yr effaith i'w monitro | Dangosyddion | Ffynhonnell data | Amlder |
|---|---|---|---|---|
| | | | Adroddiad Cynnydd<br>Ansawdd Aer Blynyddol<br>Awdurdodau Cyfun<br>Gogledd Cymru | |
| **7. Hybu economi gynaliadwy, datblygiad busnes a buddsoddi** | Bydd y CDLl yn galluogi twf economaidd cynaliadwy | 1. Gwerth Ychwanegol Gros y pen, gan geisio cynnydd;<br>2. Treth Ar Werth, ceisio cynnydd; a<br>3. Cyfradd gweithgarwch economaidd, ceisio cynnydd. | Rheoli Datblygu, CSFf | Bob tair blynedd |
| **8. Darparu cyfleoedd cyflogaeth ar draws y Sir a hybu cynhwysiant economaidd** | Byddai'r CDLl yn helpu i hwyluso twf mewn cyfleoedd cyflogaeth lleol | 1. Nifer yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is sydd yn y 10% isaf o ran amddifadedd cyflogaeth;<br>2. Canran y rhai 16-64 oed sy'n ddi-waith;<br>3. Cyfran y busnesau yn Sir y Fflint sy'n recriwtio'n lleol;<br>4. Cyflogaeth mewn gwahanol sectorau, gan geisio sicrhau cymysgedd amrywiol;<br>5. Nifer yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is sydd yn y 10% isaf o ran amddifadedd incwm. | Mynegai Amddifadedd Lluosog<br>Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar y farchnad lafur | Bob tair blynedd |
| **10. Gwarchod a hybu bioamrywiaeth a geoamrywiaeth** | Gall y CDLl gael effeithiau andwyol ar fioamrywiaeth mewn rhai lleoliadau. | 1. Nifer y cynlluniau datblygu sy'n mabwysiadu mesurau gwella bioamrywiaeth;<br>2. Cyfanswm y canopi coed yn y Sir, gan dargedu cynnydd net;<br>3. Cyflwr y SoDdGA yn y Sir. | Rheoli Datblygu, CSFf<br>Canlyniadau arolwg SoDdGA CNC | Bob tair blynedd |
| **11. Gwarchod a hybu nodweddion ac ansawdd tirlun a threflun y Sir** | Gall y CDLl gael effeithiau andwyol ar y tirlun mewn rhai lleoliadau. | 1. Swm y datblygiad yng nghefn gwlad; a<br>2. Datblygiad o fewn, wrth ymyl neu a gaiff ei weld o'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. | Rheoli Datblygu, CSFf | Bob tair blynedd |
| **12. Gwarchod a hybu'r asedau treftadaeth ddiwylliannol** | Gall y CDLl gael effeithiau andwyol ar yr amgylchedd hanesyddol mewn rhai lleoliadau. | 1. Cyfran y datblygiad newydd sy'n mabwysiadu mesurau osgoi neu liniaru mewn perthynas ag asedau treftadaeth<br>2. Nifer yr Adeiladau Rhestredig sydd ar y gofrestr 'mewn perygl', ceisio lleihad. | Rheoli Datblygu, CSFf | Bob tair blynedd |
| **13. Gwarchod a gwella ansawdd nodweddion ac adnoddau dŵr** | Gall y CDLl beri risg i ansawdd y dŵr mewn cyrff dŵr naturiol mewn rhai lleoliadau.<br>Byddai'r CDLl yn arwain at gynnydd net mewn defnydd dŵr. | 1. Faint o ddatblygiadau newydd bob blwyddyn y mae angen caniatâd i'w hadeiladu wrth ymyl yr Afon Dyfrdwy<br>2. Argaeledd adnoddau dŵr yn unol â'r Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr (bob 5 mlynedd). | Rheoli Datblygu, CSFf | Blynyddol |
| **14. Lleihau'r perygl o lifogydd** | Byddai'r CDLl yn amlygu nifer cyfyngedig o breswylwyr | 1. Canran y datblygiadau sydd â Systemau Draenio Cynaliadwy<br>2. Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru ar lifogydd. | Rheoli Datblygu, CSFf | Blynyddol |

| Amcanion yr AEI | Yr effaith i'w monitro | Dangosyddion | Ffynhonnell data | Amlder |
|---|---|---|---|---|
| | a busnesau i berygl o lifogydd o ddŵr wyneb ac afonydd. | | | |
| **15. Gwarchod a gwella ansawdd yr aer a chyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr** | Byddai disgwyl i'r CDLl arwain at gynnydd net mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr a llygredd aer | 1. Cyfanswm a chyfran yr allyriadau $CO_2$ o'r sector cludiant | Ystadegau cenedlaethol ar allyriadau carbon deuocsid fesul awdurdod lleol a rhanbarth yn y DU: 2005 - 2016 | Blynyddol |
| **16. Cynyddu effeithlonrwydd ynni, ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddio ynni adnewyddadwy a dylunio adeiladau'n gynaliadwy** | Byddai disgwyl i'r CDLl arwain at gynnydd net yn y defnydd o ynni | 1. Bil tanwydd blynyddol cyfartalog i breswylwyr;<br>2. Nifer y prosiectau ynni adnewyddadwy a ganiateir yn y Sir | Rheoli Datblygu, CSFf | Blynyddol |
| **17. Sicrhau defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol** | Byddai disgwyl i'r CDLl arwain at golled net o bridd sy'n bwysig yn ecolegol ac yn amaethyddol | 1. % y datblygiad sy'n digwydd ar y tir gorau a mwyaf amlbwrpas;<br>2. Canran y tir a adferwyd, fel cyfran o gyfanswm y tir halogedig yn y Sir; a<br>3. % y datblygiadau newydd sy'n ymgorffori cyfleusterau rheoli gwastraff. | Rheoli Datblygu, CSFf | Blynyddol |
| **18. Annog pobl i amddiffyn a hyrwyddo'r Gymraeg** | Gall y CDLl beri risg o wanhau'r nifer sy'n siarad Cymraeg mewn ardaloedd sensitif | 1. % y cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Sir;<br>2. Cyfraniadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol neu Gytundeb Adran 106 o ddatblygiadau mawr mewn ardaloedd lle mae canran uchel o siaradwyr Cymraeg yn y Ward – ar gyfer gwersi neu weithgareddau cymunedol Cymraeg neu'n gysylltiedig ag Addysg. | Rheoli Datblygu, CSFf | Bob tair blynedd |

# 6 Casgliad

6.1.1 Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion Datganiad ar ôl Mabwysiadu yn unol â Rheoliadau'r AAS. Mae CDLl Sir y Fflint, ar bob iteriad, wedi'i werthuso am ei effeithiau arwyddocaol tebygol yn erbyn pob un o Amcanion yr AEI o fewn y Fframwaith. Mae'r AEI yn broses sydd wedi'i integreiddio'n fawr â datblygiad y CDLl, sy'n cynnwys perthynas waith agos rhwng tîm yr AEI a'r Cyngor. Mae'r AEI wedi darparu ffordd strwythuredig o ystyried effeithiau ystod eang o ddewisiadau.

6.1.2 Mae'r AEI yn cael ei ddefnyddio fel offer ar gyfer ymgynghori, gan ddarparu dadansoddiad i'r cyhoedd a chyrff statudol o sut mae'r CDLl wedi'i ddatblygu mewn ffordd a fydd yn sicrhau ei fod yn gallu cyfrannu at ddatblygiad mwy cynaliadwy. Mae'r ymgynghoriad, y cyfranogiad a'r broses ymgysylltu wedi rhoi cyfle i fudd-ddeiliaid roi adborth ac awgrymiadau ar sut i wella cynaliadwyedd cyffredinol y CDLl.

6.1.3 Drwy gydol y broses, mae'r AEI wedi rhoi awgrymiadau a all helpu i osgoi neu liniaru effeithiau negyddol posibl neu wella effeithiau cadarnhaol. Mae'r argymhellion a wnaed i'r Cyngor wedi bod yn nodwedd allweddol o broses yr AEI o'r dechrau. Mae'r prif argymhellion a wnaed, a'r ymatebion i'r rhain, wedi'u cyflwyno mewn Adroddiadau AEI blaenorol ac yn y ddogfen hon. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi bod yn barod i dderbyn mesurau i wella perfformiad cynaliadwyedd y CDLl ac felly wedi gwneud gwelliannau a newidiadau drwyddo.

**Arcadis Consulting (UK) Limited**

Arcadis Cymru House
Parc Busnes St Mellons
Ffordd Fortran
Caerdydd
CF3 0EY

arcadis.com